

Datganiad o Risgiau, Cryfderau a Gwendidau a Chynllun Sicrwydd Drafft 2018/19



Pwy ydym ni

Dŵr Cymru yw'r chweched cwmni mwyaf o'r deg cwmni dŵr a dŵr gwastraff a reoleiddir yng Nghymru a Lloegr. Mae DCWW yn unigryw ymhlith cwmnïau cyfleustodau yn y DU – Glas Cymru Cyfyngedig, cwmni 'nid er elw', cyfyngedig drwy warant, sy'n berchen arnom. Rydym yn darparu gwasanaeth hanfodol ac, fel gwarcheidwaid y diwydiant dŵr yn ein hardal, rydym yn gyfrifol am ddiogelu'r amgylchedd a darparu gwasanaeth dibynadwy o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid.

RYDYM YN GWMNI DŴR NID ER ELW.

NID OES GENNYM GYFRANDDALWYR, SY'N GOLYGU EIN BOD YN GWARIO POB CEINIOG AR OFALU AM EICH DŴR A'R AMGYLCHEDD.

Rydym yn cadw dros dair miliwn o bobl yn iach bob dydd gyda dŵr diogel, dibynadwy, ac yn mynd â dŵr gwastraff i ffwrdd i'w lanhau cyn ei ddychwelyd yn ddiogel i'n hafonydd a'n moroedd hardd.

Rydym yn gwasanaethu cwsmeriaid yn y rhan fwyaf o Gymru, Swydd Henffordd a rhai cymunedau ar hyd y ffin â Lloegr.

THE AREA WE SERVE



Ein gweledigaeth

Mae'n rhaid i gwsmeriaid allu bod yn hyderus bod y gwasanaethau hanfodol a ddarperir gennym yn ddiogel ac o'r safon uchaf. Gwyddom fod pobl yn dibynnu arnom i wneud y peth iawn ar eu rhan. Dyna pam rydym yn rhoi cwsmeriaid yn gyntaf. Maent wrth wraidd popeth a wnawn.

Byddwn yn ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd drwy ddarparu gwasanaethau hanfodol o ansawdd uchel sy'n diogelu iechyd ein cwsmeriaid, ein cymunedau a'r amgylchedd o'n hamgylch.

Ein gwerthoedd

Rydym yn falch o roi ein cwsmeriaid yn gyntaf. Rydym yn anelu at ragoriaeth ym mhopeth a wnawn. Rydym bob amser yn agored i syniadau newydd ac yn herio ein hunain i ddod o hyd i ffyrdd gwel weithio. Rydym yn gwneud ein gwaith yn ddiogel ac nid ydym yn torri corneli. Mae bod yn onest, hyd oed pan fydd pethau yn anodd, yn golygu y gall ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid ymddiried ynom i wneud y peth iawn bob amser. Drwy fyw yn ôl y gwerthoedd hyn, bob dydd, byddwn yn ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid.

Cynnwys

1	CYFLWYNIAD	5
1.1	Y ddogfen hon.....	5
1.2	Sut i ymateb.....	6
2	CEFNDIR A CHYD-DESTUN	7
3	EIN DULL GWEITHREDU A'R HYN RYDYM YN CEISIO EI GYFLAWNI	11
4	EIN DULL O SICRHAU DATA	12
4.1	Egwyddorion sicrwydd cadarn.....	12
4.2	Perchenogaeth ac atebolrwydd clir	13
4.3	Llywodraethu effeithiol	13
4.4	Tryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus	14
5	DIWYLLIANT EIN CWMNI	15
6	PWYSIGRWYDD YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID	17
7	Y BROSES ASESU RISG A GWERTHUSO RISGIAU, CRYFDERAU A GWENDIDAU	18
7.1	Ein hasesiad o risgiau ansawdd data.....	18
7.2	Canlyniadau asesu effaith risgiau ansawdd data	18
7.3	Dull o asesu tebygolrwydd risgiau o ran ansawdd data.....	19
8	DATGANIAD O RISGIAU, CRYFDERAU A GWENDIDAU	21
8.1	Data Asesu Cost – (a gwmpesir yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol bellach)	23
9	CYNLLUN SICRWYDD DRAFFT.....	24
9.1	Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2018/19	24
9.2	Mesurau Perfformiad (Cymhellion Cyflawni Canlyniadau)	27
9.3	Adrodd Cylchrannol	28
9.4	Cynlluniau Taliadau.....	29
9.5	Cyhoeddiadau ar y Wefan	31
9.6	Cynllun Busnes Adolygiad Prisiau 2019	33
9.7	Gwybodaeth am y Farchnad Bioadnoddau	35
9.8	Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a Gwybodaeth am y Farchnad	36
9.9	Adroddiadau Ariannol Statudol	39
9.10	Cyfoeth Naturiol Cymru – Tablau Cydymffurfio (MD109)	40
9.11	Perfformiad, Arferion a Pholisïau Talu	42
9.12	Ymgysylltu â Chwsmeriaid	43
9.13	Cysylltiadau a chwynion gan gwsmeriaid dibreswyl	44
9.14	Ein Gwasanaethau â Blaenoriaeth i Gwsmeriaid sy'n Agored i Niwed	46
9.15	Meysydd Newydd sydd wedi'u cynnwys yn y CSD	48

9.15.1	Adroddiadau'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr	48
9.15.2	Cydnherthedd Corfforaethol	49
9.15.3	Cydnherthedd Corfforaethol	51
9.15.4	GDPR.....	52
10	Y CAMAU NESAF.....	53
ATODIAD 1	Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd – Mesurau Perfformiad.....	54
ATODIAD 2	Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd – Gweithgareddau Eraill.....	55

1 CYFLWYNIAD

1.1 Y ddogfen hon

Diben y ddogfen hon yw egluro sut rydym yn nodi unrhyw risgiau o ran y wybodaeth a gyhoeddwn, sut rydym yn archwilio'r data ac yn cynnal ein gweithgareddau sicrwydd er mwyn rheoli unrhyw risgiau a nodir. Yn y ddogfen hon, nodwn a cheisiwn farn ar ein Datganiad o Risgiau, Cryfderau a Gwendidau sy'n gysylltiedig â sicrwydd adroddiadau rheoleiddio a'r Cynllun Sicrwydd Drafft rydym yn bwriadu ei roi ar waith er mwyn rheoli a lliniaru'r fath risgiau a nodir.

Ein nod cyffredinol yw sicrhau bod y data a'r wybodaeth a gyhoeddir gennym yn gywir ac yn ddibynadwy. Yn sail i hyn mae fframwaith sicrwydd sy'n cynnwys nifer o nodweddion, yn arbennig cyfundrefn diwylliant corfforaethol a llywodraethu sy'n hwyluso'r gwaith o brosesu gwybodaeth o ansawdd uchel i'r lefel a ddisgwylir gan ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill. Rydym yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allweddol er mwyn deall y wybodaeth y maent yn ei defnyddio ac yn dibynnu arni fel y gallwn deilwra ein gweithgareddau sicrwydd yn unol â hynny.

Rydym hefyd yn ceisio sicrhau y caiff ein dogfennau eu hysgrifennu mewn fformat sy'n hawdd i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid ei ddeall, ac rydym yn parhau i anelu at ["ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd"](#).

Dyma'r pedwerydd gwaith i ni gyhoeddi ac ymgynghori ar Ddatganiad o Risgiau, Cryfderau a Gwendidau, ac unwaith eto rydym yn cynnal ymgynghoriad ar y Cynllun Sicrwydd Drafft ar yr un pryd. Rydym wedi ystyried sylwadau blaenorol gan rhanddeiliaid allweddol sydd wedi ein helpu i lywio newidiadau a'n galluogi i ddatblygu arfer gorau. Rydym hefyd wedi ymestyn cwmplas y gweithgareddau sicrwydd er mwyn mynd ati i adrodd ar feysydd eraill fel y mesurau perfformiad a gyflwynwyd i Ofwat yn ein cynllun busnes PR19 ym mis Medi 2018 a chydnerthedd corfforaethol ac ariannol.

Yn ein:

- **Datganiad o Risgiau, Cryfderau a Gwendidau** (adran 7) rydym yn asesu'r risgiau a allai effeithio ar ein gallu i ddarparu gwybodaeth y gall ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid ymddiried ynddi a dibynnu arni; ac yn ein
- **Cynllun Sicrwydd Drafft** (adran 9) rydym yn nodi'r camau sydd angen eu cymryd, yn ein barn ni, er mwyn mynd i'r afael â risgiau a'r gwendidau o'r fath a nodwyd gennym.

Rydym yn gofyn i gwsmeriaid a rhanddeiliaid am eu barn ar y ddau uchod a chaiff yr adborth a gawn ei ddefnyddio i lunio ein Cynllun Sicrwydd Terfynol, y bwriadwn ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2019.

Eleni, rydym hefyd wedi cyhoeddi [dogfen trosolwg](#) ar ein Cynllun Sicrwydd Drafft er mwyn i'n holl gwsmeriaid a rhanddeiliaid feithrin lefel uchel o ddealltwriaeth o'r manylion sydd yn y ddogfen hon.

1.2 Sut i ymateb

Croesawn safbwyntiau cwsmeriaid a rhanddeiliaid ar unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, ac mae gennym ddiddordeb arbennig mewn cael eich barn ar y canlynol:

CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD	
C1.	A yw'r ddogfen hon yn hawdd ei darllen a'i deall ac a oes unrhyw ffordd o'i gwella?
C2.	A yw ein cynlluniau yn cwmpasu'r wybodaeth sy'n bwysig i chi ac a fydd y sicrwydd a gynllunnir yn rhoi'r hyder i chi y bydd ein gwybodaeth yn gywir ac yn gyflawn?
C3.	Lle rydym wedi nodi risgiau perthnasol, a ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n ddigonol?

Byddem yn croesawu eich ymatebion erbyn **11 Ionawr 2019**.



Gellir anfon ymatebion i assuranceplanconsultation@dwrcymru.com



neu drwy'r post i:

Ymgynghoriad Cynllun Sicrwydd
Dŵr Cymru Welsh Water
Heol Pentwyn
Nelson
Treharris
Morgannwg Ganol CF46 6LY

Gall y wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth, sef Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn bennaf.

Os hoffech i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, eglurwch i ni pam y dylem wneud hynny, yn eich barn chi. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y byddwn yn cadw cyfrinachedd ymhob achos. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a grëir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n ein rhwymo.

2 CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Yn ystod haf 2019, byddwn yn cyhoeddi ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2018/19. Bydd y ddogfen hon yn dilyn yr un patrwm â'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennym dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd yr adroddiad yn galluogi rhanddeiliaid i asesu sut rydym wedi perfformio yn erbyn y Mesurau Llwyddiant hynny sydd bwysicaf i'n cwsmeriaid (y "Mesurau Perfformiad"). Cytunwyd ar y rhan fwyaf o dargedau'r Mesurau Perfformiad gyda chwsmeriaid fel rhan o ymarfer ymgysylltu â chwsmeriaid mawr a gynhaliwyd pan roeddem yn paratoi ein cynlluniau busnes ar gyfer cyfnod 2015-20.

Rhydd y Grŵp Herio Cwsmeriaid, sef grwpiau lleol annibynnol o gynrychiolwyr cwsmeriaid a

Mae'n bwysig ein bod yn darparu gwybodaeth i gwsmeriaid a rhanddeiliaid a gaiff ei harwain gan gwsmeriaid ac sy'n hygyrch, yn glir, yn dryloyw ac yn amserol. Felly, ein hamcan parhaus yw darparu gwybodaeth sy'n hawdd ei dilyn a'i defnyddio ac sy'n eu galluogi i ddeall sut rydym yn perfformio. Cydnabyddwn hefyd fod hyn yn helpu i feithrin hyder ac ymddiriedaeth yn y busnes.

rhanddeiliaid eraill, broses adolygu annibynnol ychwanegol, a chaiff gwybodaeth ei rhannu'n rheolaidd â'r Grŵp er mwyn ei alluogi i herio hynt y gwaith o gyflawni ein hymrwymiaadau perfformiad. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Herio Cwsmeriaid i ddatblygu ein prosesau adrodd ar berfformiad er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill.

Ar gyfer 2015-2020, cyflwynodd Ofwat y Fframwaith Monitro Cwmnïau er mwyn herio pob cwmni i ddarparu gwybodaeth i gwsmeriaid a rhanddeiliaid sy'n ddibynadwy, yn amserol ac yn briodol i'r gynulleidfa, ac i gwmnïau fod yn dryloyw gyda chwsmeriaid a rhanddeiliaid ynghylch y mesurau sicrhau data sydd ganddynt. Mae cael gwybodaeth sy'n hawdd ei deall a'i defnyddio yn sicrhau tryloywder ac yn helpu pawb i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn dŵr.

Un o elfennau allweddol y Fframwaith yw lefel y sicrwydd sydd ei angen ar Ofwat yn ychwanegol at gynigion sicrwydd cwmnïau eu hunain. Mae Ofwat yn cynnal asesiad blynyddol o dan y Fframwaith Monitro Cwmnïau ac yn gosod pob cwmni dŵr yn un o'r tri chategori sicrwydd isod:

Categori	Beth mae hyn yn ei olygu
1. Hunansicrwydd	Mae cwmni wedi dangos yn gyson y gall cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ymddiried yn y wybodaeth mae'n ei darparu, a bod yn hyderus yn ei chylch. Dylai cwmnïau yn y categori hunansicrwydd fodloni disgwyliadau yn y rhan fwyaf o asesiadau, os nad i gyd, gryn dipyn gyda thystiolaeth o ragori ar ddisgwyliadau er mwyn dangos ymddygiad o'r radd flaenaf.
2. Wedi'i dargedu	Nid yw cwmni yn llwyddo i gyrraedd y safonau uchel mae cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn eu disgwyl yn gyson.
3. Rhagnodedig	Nid yw cwmni yn meithrin digon o hyder yn ei allu i gyflawni, monitro ac adrodd ar berfformiad.

Rydym yn aros am asesiad blynyddol nesaf Ofwat ym mis Ionawr 2019 er mwyn gweld p'un a yw cwmnïau yn symud rhwng y tri chategori. Dengys y tabl isod safle diweddaraf pob cwmni:

Asesiad Ofwat o dan y Fframwaith	2016	2017	Symud ers y flwyddyn flaenorol
South East	Hunansicrwydd	Hunansicrwydd	↔
United Utilities	Hunansicrwydd	Hunansicrwydd	↔
Northumbrian	Wedi'i dargedu	Hunansicrwydd	↑

Asesiad Ofwat o dan y Fframwaith	2016	2017	Symud ers y flwyddyn flaenorol
Dŵr Cymru Welsh Water	Wedi'i dargedu	Wedi'i dargedu	↔
Anglian	Wedi'i dargedu	Wedi'i dargedu	↔
South West	Wedi'i dargedu	Wedi'i dargedu	↔
South Staffordshire	Wedi'i dargedu	Wedi'i dargedu	↔
Portsmouth	Wedi'i dargedu	Wedi'i dargedu	↔
Affinity	Wedi'i dargedu	Wedi'i dargedu	↔
Wessex	Wedi'i dargedu	Wedi'i dargedu	↔
SES	Wedi'i dargedu	Wedi'i dargedu	↔
Severn Trent	Hunansicrwydd	Wedi'i dargedu	↓
Yorkshire	Rhagnodedig	Wedi'i dargedu	↑
Thames	Wedi'i dargedu	Rhagnodedig	↓
Dyffryn Dyfrdwy	Rhagnodedig	Rhagnodedig	↔
Southern	Rhagnodedig	Rhagnodedig	↔
Bristol	Rhagnodedig	Rhagnodedig	↔

Daeth asesiad blaenorol Ofwat i'r casgliad ein bod wedi dangos y gallwn ddarparu gwybodaeth gywir a dibynadwy sy'n ennyn hyder ac ymddiriedaeth rhanddeiliaid a nododd *"we were pleased with much of what we saw in Dŵr Cymru's publications"* a *"Dŵr Cymru has met our expectations in most aspects of assurance"*. Fodd bynnag, penderfynodd Ofwat y dylem barhau i fod yn y categori sicrwydd wedi'i dargedu.

Yn Fframwaith Monitro Cwmnïau Tachwedd 2017, asesodd Ofwat pob cwmni ar wyth maes penodol. Fel y gwelir yn y tabl isod, cyflawnom dri "rhagori ar ddisgwyliadau" (a oedd yn cynnwys ein Cynllun Sicrwydd Data), tri "bodloni disgwyliadau" a dau "mân bryderon". Yng Nghynllun Sicrwydd Terfynol y llynedd, gwnaethom nodi sut y byddem yn mynd i'r afael â'r ddau faes hyn, a rhydd y tabl isod y wybodaeth ddiweddaraf.

Maes	Asesiad Ofwat	Sylwadau Ofwat o dan Fframwaith Tachwedd 2017	Sut rydym wedi mynd i'r afael â mân bryderon.
Fframwaith monitro ariannol	Mân bryderon	Nodwyd bod y cynnyrch difidend wedi'i nodi fel ffigur positif yn lle ffigur negatif. Cyfrifwyd y gyfradd dreth effeithiol drwy gyfeirio at gyfanswm y dreth gorfforaeth ar gyfer y flwyddyn (yn cynnwys addasiadau'r flwyddyn flaenorol) yn hytrach na'r dreth gorfforaeth gyfredol. Roedd un eitem gysoni fach mewn perthynas â deilliannau ariannol na chafodd ei hegluro'n llawn.	Rydym wedi diwygio ein gweithdrefnau ysgrifenedig er mwyn sicrhau ein bod yn nodi hyn yn adroddiad 2018/19. <i>(Rhoddir rhagor o fanylion ar dudalen 11 o Gynllun Sicrwydd Terfynol Mawrth 2018).</i>
Ymgysylltu ym maes taliadau	Bodloni disgwyliadau	Roedd y wybodaeth roedd Dŵr Cymru yn ei chyhoeddi am ei gynllun taliadau a'i daliadau cyfanwerthol yn bodloni ein disgwyliad. Gwnaeth y cwmni ymgynghori'n amserol â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Gwelliant pellach fyddai amlinellu'r hyn a drafododd â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr a sut y gwnaeth y drafodaeth hon effeithio, os o gwbl, ar ei gynllun taliadau terfynol a/neu daliadau cyfanwerthol. Nododd y cwmni nad oedd yn disgwyl i unrhyw un o'i filiau gynyddu mwy na 5%. Y tu hwnt i hyn, gallai fod wedi ategu'r datganiad hwn drwy, er enghraifft, gyflwyno tabl yn dangos lefel y cynnydd mewn biliau ar gyfer set gynrychioliadol o gwsmeriaid preswyl a dibreswyl.	
Canlyniadau	Rhagori ar ddisgwyliadau	Mae'n bwysig adrodd ar berfformiad yn gywir o ran ennyn hyder ac ymddiriedaeth. Mae prosesau sicrwydd cwmnïau yn allweddol i hyn ac rydym	

Maes	Asesiad Ofwat	Sylwadau Ofwat o dan Fframwaith Tachwedd 2017	Sut rydym wedi mynd i'r afael â mân bryderon.
		am gymell sicrwydd o ansawdd uchel. Fodd bynnag, cydnabyddwn fod peth gwybodaeth, yn ôl ei natur, yn ansicr ac y gall fod angen ei diwygio. Mae ein hasesiad yn edrych ar sicrwydd yn ei gyfanrwydd; petai gwallau difrifol i'w cael a heb eu nodi yna byddai ein hasesiad yn adlewyrchu hyn.	
Cydymffurfio ag egwyddorion arweinyddiaeth Bwrdd, tryloywder a llywodraethu	Bodloni disgwyliadau	Mae'r wybodaeth a roddwyd yn adroddiadau blynyddol y cwmni wedi dangos sut mae'n cyflawni ein hegwyddorion o ran arweinyddiaeth bwrdd, tryloywder a llywodraethu.	
Datganiad risg a chydymffurfiaeth	Rhagori ar ddisgwyliadau	Mae'r bwrdd wedi darparu datganiad clir sy'n cadarnhau bod y cwmni yn deall ac yn cyflawni ei rwymedigaethau. Mae hefyd wedi cadarnhau bod gan y cwmni brosesau a systemau rheolaeth fewnol digonol ar waith i gyflawni'r rhwymedigaethau hynny a bod ganddo systemau a phrosesau ar waith i nodi, rheoli ac adolygu risgiau. Mae'r datganiad wedi'i gymeradwyo'n briodol ar ran y Bwrdd. Caiff y datganiad a ddarparwyd gan y Bwrdd ei ategu gan lythyr gan gynghorydd technegol annibynnol y cwmni ar faterion adrodd rheoliadol sy'n crynhoi'r adolygiad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r dulliau a'r prosesau a ddefnyddir gan y cwmni i asesu cydymffurfiaeth â'i rwymedigaethau. Mae hyn yn helpu i roi hyder i randdeiliaid yn y datganiadau a ddarperir gan y bwrdd.	
Cynllun Sicrwydd	Rhagori ar ddisgwyliadau	Mae'r cwmni wedi mynd i'r afael â'n pryderon ynghylch cwmpas yr ymarfer risgiau, cryfderau a gwendidau a chynllun sicrwydd y llynedd. Mae'r cwmpas bellach yn cynnwys yr holl wybodaeth a gynhyrchir ganddo ac mae'n nodi'n glir ymhle y caiff gweithgareddau sicrwydd eu targedu a pham. Mae'r tablau yn y ddogfen yn nodi'r gweithgareddau sicrwydd presennol (mewnol ac allanol) a gweithgareddau sicrwydd wedi'i dargedu newydd, gan ddefnyddio'r model tair llinell o amddiffyniad. Mae'r cynllun yn cwmpasu llywodraethu effeithiol, tryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus a diwylliant y cwmni. Mae'r cwmni'n amlwg wedi adolygu ein sylwadau a'n hasesiad o gynlluniau cwmnïau eraill er mwyn nodi arfer gorau, ac wedi cymhwyso'r arfer gorau hwnnw'n effeithiol yn ei gynllun.	
Crynodeb sicrwydd data	Mân bryderon	Cyhoeddodd y cwmni grynodeb byr o'r broses sicrwydd data. Nid yw'r crynodeb sicrwydd data yn rhoi digon o fanylion am y gweithgareddau sicrwydd a gynhaliwyd na chanlyniadau'r gweithgareddau hynny. Caiff y crynodeb sicrwydd data ei ysgrifennu mewn arddull sy'n hawdd ei darllen ond, gan ei fod yn rhan o'r adroddiad perfformiad blynyddol, nid yw'n amlwg ar wefan y cwmni. Ceir cyfeiriadau at y fframwaith sicrwydd mewn gwahanol rannau o'r adroddiad perfformiad blynyddol, sy'n ei gwneud hi'n anodd i randdeiliaid ddod o hyd i'r holl wybodaeth. Byddai'n ddefnyddiol i ddarllenwyr gael crynodeb o fewn y crynodeb sicrwydd data.	Ym mis Gorffennaf 2018, gwnaethom gyhoeddi crynodeb sicrwydd data newydd, ochr yn ochr ag Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18.
Gwaith achos	Bodloni disgwyliadau	Gwnaethom gau pum achos yn ymwneud â Dŵr Cymru yn ystod y cyfnod asesu. Roedd tri o'r rhain yn apeliadau mabwysiadu carthffos ac roedd dau yn benderfyniadau ynghylch gwaith ar dir preifat (a gaewyd ym mis Tachwedd 2016 a mis Mawrth 2017). Ni ofynnwyd am unrhyw wybodaeth gan y cwmni o ran yr apeliadau mabwysiadu carthffos, felly nid ydynt yn rhan o'r asesiad hwn. At hynny, roedd y penderfyniad a gaewyd ym mis Tachwedd 2016 yn rhan o asesiad y llynedd ac ni ofynnwyd am unrhyw wybodaeth ychwanegol fel rhan o'r asesiad hwn. Felly, mae ein hasesiad ond yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd gan y cwmni am y penderfyniad a gaewyd gennym ym mis Mawrth 2017. Gwnaeth y cwmni ddarparu gwybodaeth am yr achos hwnnw ar amser ac i safon a wnaeth ein galluogi i fwrw ymlaen.	

Ar ôl i asesiad nesaf Ofwat o dan y Fframwaith ddod i law (a ddisgwylir ym mis Ionawr 2019), byddwn yn adolygu'r asesiad ac, os yw'n briodol, yn egluro yn ein Cynllun Sicrwydd Terfynol sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael ag unrhyw arsylwadau yn yr asesiad hwnnw.

Er mwyn datblygu cynllun sicrwydd "wedi'i dargedu", rydym felly wedi cynnal asesiad risg adrodd mewn perthynas â'r holl ddata perthnasol a gaiff eu cynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a dogfennau allweddol eraill. Roedd hwn yn ymarfer pwysig a oedd yn sail i'r Datganiad o Risgiau, Cryfderau a Gwendidau.

3 EIN DULL GWEITHREDU A'R HYN RYDYM YN CEISIO EI GYFLAWNI

Mae dibynadwyedd a chywirdeb data yn bwysig iawn i ni ac mae hwn yn gyfle i adeiladu ar yr hyn sydd wedi bod ar waith gennym ers tro. Rydym wedi cadw llawer o'r prosesau a'r mentrau, fel sicrwydd ansawdd data, diwydrwydd dyladwy, hyfforddiant a mapio prosesau sydd wedi bod o fudd i'r busnes yn y gorffennol.

Mae gennym fframwaith archwilio a sicrwydd a luniwyd i fonitro a gwerthuso'r agweddau amrywiol ar ein perfformiad yn systematig er mwyn sicrhau bod safonau ansawdd yn cael eu cyrraedd. Mae hyn yn cynnwys trefniadau llywodraethu priodol, cyfraniad amlwg gan ein Bwrdd yn y broses sicrwydd, a'r lefel gywir o adolygiad annibynnol drwy broses craffu a herio trydydd parti. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'n Bwrdd, rhanddeiliaid a chwsmeriaid ac yn rhoi dilysrwydd a sicrwydd o ran lefel y perfformiad rydym yn ei gyflawni a'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu.

Bydd y wybodaeth a gyhoeddwn am ein perfformiad yn destun prosesau sicrwydd er mwyn cynnal a meithrin lefel uchel o ymddiriedaeth a hyder ymhlith ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid. Drwy fabwysiadu dulliau sicrwydd sy'n seiliedig ar risg, a defnyddio gwaith adolygu mewnol ac allanol, gallwn herio ein perfformiad a chraffu arno yn gadarn.

Mae ein proses sicrwydd seiliedig ar risg yn edrych ar ein prosesau adrodd yn eu cyfanrwydd er mwyn nodi'r risgiau, y cryfderau a'r gwendidau sy'n gysylltiedig â darparu gwybodaeth o ansawdd uchel y mae cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn ymddiried ynddi. Mae hefyd yn ystyried pa mor debygol yw hi y daw'r risgiau hyn yn weithredol a'u heffaith bosibl. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y meysydd a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ac yn ein galluogi i gymryd camau i fonitro unrhyw risgiau perthnasol a'u rheoli.

Mae'r camau rydym wedi eu cymryd yn seiliedig ar fethodoleg Ofgem, a ddatblygwyd i ddarparu canllawiau ar arfer gorau ym maes cynnal asesiadau risg a gweithgareddau sicrhau data ac adrodd arnynt er mwyn sicrhau bod data cyflawn, cywir ac amserol yn cael eu cyflwyno. Cafodd ein dull gweithredu ei adolygu a'i gymeradwyo'n annibynnol gan KPMG ym mis Awst 2015. Daethpwyd i'r casgliad canlynol:

- Mae gennym ddealltwriaeth dda o ofynion Ofwat ac mae ein dogfennau polisi a'n dogfennau mapio risg yn cwmpasu'r holl elfennau sylfaenol angenrheidiol;
- Mae ein Cynllun Sicrwydd Data (yn seiliedig ar fethodoleg Ofgem) yn briodol.

Rydym wedi cymryd y camau hyn i werthuso'r risgiau, cryfderau a gwendidau sy'n gysylltiedig ag adrodd ar berfformiad yn erbyn y Mesurau Perfformiad hynny a geir ym Mhenderfyniad Terfynol 2014 ac sydd wedi eu cynnwys yn ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol, yn ogystal â'r eitemau data ychwanegol a restrir yn adran 9 o'r ddogfen hon.

4 EIN DULL O SICRHAU DATA

O fewn y busnes mae gennym brosesau llywodraethu ac atebolrwydd sefydledig. Mae ein Cynllun Sicrwydd arfaethedig ar gyfer 2018/19, yn parhau i adeiladu ar y sylfaen gadarn a sefydlwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Wrth wraidd ein fframwaith sicrwydd data mae pedwar conglfaen allweddol, sef:

1. **Egwyddorion sicrwydd cadarn – rydym yn gweithredu 'model tair llinell o sicrwydd', sydd wedi'i dargedu at feysydd sy'n peri'r risg fwyaf (adran 4.1 isod);**
2. **Perchenogaeth ac atebolrwydd clir – mae gennym linellau perchenogaeth ac atebolrwydd clir ar gyfer cyflawni perfformiad a chywirdeb a dibynadwyedd y data a ddarperir (gweler adran 4.2 isod);**
3. **Llywodraethu effeithiol – rydym yn destun craffu gan ein Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Thîm Gweithredol Dŵr Cymru gyda her ychwanegol yn cael ei darparu gan y Grŵp Herio Cwsmeriaid (gweler 4.3 isod);**
4. **Tryloywder ac atebolrwydd – rydym yn adrodd ar ein perfformiad yn gyhoeddus ac yn dwyn ein hunain i gyfrif os na fyddwn yn cyflawni ein hymrwymiaidau (adran 4.4 isod).**

4.1 Egwyddorion sicrwydd cadarn

Mae gennym fframwaith sefydledig i ddarparu ar gyfer rheoli risg yn effeithiol. Rydym yn gweithredu'r 'model tair llinell o sicrwydd' sy'n gwahaniaethu rhwng y llinell gyntaf (risgiau a rheolaethau), yr ail linell (swyddogaethau goruchwyllo) a'r drydedd linell (sicrwydd annibynnol). Caiff hyn ei ddangos yn y tabl isod.

Y model tair llinell o sicrwydd

Llinell	Maes	Rôl	Math o weithgarwch
1 Risgiau a rheolaeth:	Gweithrediadau Busnes	Darparu gwasanaeth a chyflawni perfformiad	• Darparu gwybodaeth ffynhonnell.
	Rheoli Busnes	Monitro a chofnodi perfformiad	• Diffinio a dogfennu methodolegau a phrosesau. • Nodi newidiadau perthnasol i systemau a phrosesau. • Cynnal gwiriadau ac adolygiadau ansawdd. • Cofnodi gwybodaeth am berfformiad.
2 Swyddogaethau goruchwyllo:	Rheoleiddio, Cyllid, Cwnsler Cyffredinol, Cydymffurfiaeth	Diffinio polisi a darparu'r fframwaith galluogi ar gyfer adrodd rheoliadol	• Datblygu fframwaith sicrwydd. • Adolygu gwybodaeth am berfformiad a gyflwynir. • Monitro'r modd y cyflawnir rhwymedigaethau.

Llinell	Maes	Rôl	Math o weithgarwch
			• Cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd. • Cynnal gwiriadau ac adolygiadau ansawdd. • Rhoi cyngor, arweiniad a chymorth.
	Y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd, y Grŵp Herio Cwsmeriaid	Craffu a herio	• Adolygu gwybodaeth am berfformiad a gyflwynir. • Monitro'r modd y rhoddir cynlluniau gwella ar waith. • Adolygu'r proffil risg.
3 Sicrwydd Annibynnol:	Sicrwydd Busnes, darparwyr sicrwydd allanol	Adolygiad annibynnol o lefelau o sicrwydd a ddarperir gan y Llinell Gyntaf a'r Ail Llinell	• Adolygu methodolegau a phrosesau. • Adolygu'r defnydd o fethodolegau a phrosesau. • Rhoi barn ar gywirdeb data. • Adolygu priodoldeb y fframwaith sicrwydd.

Rydym yn ystyried bod sicrwydd yn rhan o'n rhaglen gwella barhaus. Cynhelir gweithgareddau'r llinell gyntaf a'r ail linell drwy gydol y flwyddyn, gan amlygu meysydd risg posibl yn glir. Rydym yn defnyddio sicrwydd trydedd linell allanol ar adegau perthnasol o'r flwyddyn, y mae llawer ohono yn cael ei ddwyn ynghyd ac yn arwain at lunio ein hadroddiadau ariannol a'n hadroddiadau ar berfformiad ar ddiwedd y flwyddyn.

4.2 Perchenogaeth ac atebolrwydd clir

Mae perchenogaeth bersonol a chydberchenogaeth gref yn hanfodol er mwyn sicrhau cywirdeb y wybodaeth a gynhyrchir gennym ac mae'n golygu y gallwn ddwyn ein hunain i gyfrif. Drwy gyflwyno adroddiadau mewnol ar berfformiad i Dîm Gweithredol misol Dŵr Cymru a'r Bwrdd (ym mhob cyfarfod) yn rheolaidd, ac adroddiadau ar berfformiad i'r Grŵp Herio Cwsmeriaid rydym yn atgyfnerthu'r diwylliant hwn o berchenogaeth ac atebolrwydd. Bob blwyddyn rydym yn diweddarau ein fframwaith cydymffurfio er mwyn sicrhau y caiff atebolrwyddau unigol eu cysylltu â'n rhwymedigaethau rheoliadol a statudol. Rydym hefyd yn gweithredu proses gymeradwyo drylwyr ar gyfer ein data rheoliadol yn yr Adroddiad Perfformiad Blyneddol, gan gynnwys cymeradwyaeth perchennog y data, yr uwch reolwr cyfrifol (lle y bo'n briodol) a'r cyfarwyddwr atebol. Mae hyn yn ychwanegol at drefniadau llywodraethu ein Bwrdd.

Mae ein model tair llinell o sicrwydd yn sicrhau bod gwahaniad clir o atebolrwyddau rhwng y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni ymrwymiad perfformiad neu rwymedigaeth reoliadol/statudol a'r rhai sy'n gyfrifol am sicrhau cywirdeb y data hynny. Adlewyrchir y gwahaniad hwn yn ein trefniadau llywodraethu.

4.3 Llywodraethu effeithiol

Byddwn yn parhau i adolygu ein trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â newidiadau i God Llywodraethu Corfforaethol y DU yn y dyfodol. Yn benodol, rydym wedi sicrhau bod y cod yn adlewyrchu ein hegwyddorion adrodd ar berfformiad a'n trefniadau llywodraethu ac yn cyflawni'r canlynol:

- ein bod yn llunio adroddiadau tryloyw er mwyn cyrraedd y safonau yn Rheolau'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar Ddatgelu a Thyloywder, neu ragori arnynt;

- her briodol gan ein Bwrdd drwy sicrhau bod ganddo'r cydbwysedd priodol o sgiliau, profiad, annibyniaeth a gwybodaeth am y cwmni.

Mae ein Cynllun Sicrwydd yn darparu ar gyfer llywodraethu ein hymrwymadau perfformiad ac adroddiadau allanol eraill gyda gwahaniad clir o atebolrwyddau ac mae ganddo'r nodweddion allweddol canlynol:

- Rôl y Bwrdd yw cyflawni ei rwymedigaethau i randdeiliaid y cwmni. Mae'n adolygu perfformiad gan ystyried amcanion strategol y cwmni a'r ymrwymadau yn ei gynllun busnes – gan sicrhau y cymerir unrhyw gamau unioni angenrheidiol;
- Mae Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd yn helpu'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau am sicrhau cywirdeb datganiadau ariannol y cwmni, asesu rheolaethau mewnol ar gyfer data ariannol ac anariannol a sicrhau eu bod yn effeithiol a sicrhau bod archwilywyr mewnol ac allanol yn effeithiol;
- Mae'r Grŵp Herio Cwsmeriaid yn darparu her allanol annibynnol i'n perfformiad yn erbyn ein hymrwymadau ac unrhyw wybodaeth ategol a ddarparwn amdano.

4.4 Tryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus

Ein Gweledigaeth yw ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd ac rydym yn ymrwymedig i fod yn agored ac yn onest o ran ein holl ohebiaeth ac adroddiadau ar berfformiad. Mae pob dull cyfathrebu yn seiliedig ar dryloywder, uniondeb, hygyrchedd ac amseroldeb. Mae ein gwybodaeth a'n hadroddiadau yn destun gwiriadau ar sawl lefel cyn iddynt gael eu cynnwys yn ein cyhoeddiadau craidd, ac mae hyn yn cynnwys adolygiadau gan gymheiriaid, cymeradwyaeth uwch reolwyr ac adolygiadau gan Dîm Gweithredol Dŵr Cymru neu'r Bwrdd yn ôl yr angen. Byddwn yn parhau i ddwyn ein hunain i gyfrif drwy gyhoeddi ein Hadroddiad Perfformiad Blynnyddol ar gyfer 2018/19 a fydd yn ymgorffori gofynion adrodd Ofwat.



5 DIWYLLIANT EIN CWMNI

Mae ein dull o ymdrin â sicrwydd data yn ein harwain i ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â phrosesau a nodi rheolaethau penodol sydd ar waith i reoli neu liniaru'r risgiau hynny. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad yw'r rheolaethau hyn yn gweithredu mewn gwagle ond o fewn sefydliad sydd â'i ddiwylliant a'i drefniadau llywodraethu ei hun sydd ynddo'i hun yn rhoi rhywfaint o dawelwch meddwl mewn perthynas â llawer o risgiau.

Diffinnir diwylliant ein cwmni gan y gwerthoedd rydym yn eu mabwysiadu a gwybodaeth, sgiliau ac agweddau ein cydweithwyr. Ein Gweledigaeth yw ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd. Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn ymddwyn yn gyfrifol fel unigolion ac fel cwmni bob amser — nid dim ond pan fydd yn ofynnol i ni wneud hynny o dan y gyfraith, ond hefyd yn gyffredinol, yn ein bywydau gwaith.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein cydweithwyr yn cael yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith, dyna pam rydym yn buddsoddi mewn llawer o gynlluniau datblygu mewnol.

Rydym yn gweithio mewn amgylchedd lle nad yw rheolwyr yn cuddio mewn swyddfeydd ac mae polisi drws agored ar waith bob amser. Felly os bydd gan gydweithiwr gwestiwn, bydd yn gallu cael ateb bob amser. Mae hyn yn ein galluogi i feithrin cydberthnasau gweithio agosach, hygyrchedd a llif agored o gyfathrebu.

Mae ein diwylliant yn un o gonglfeini'r broses sicrwydd data ac yn seiliedig ar werthoedd a chredoau a rennir. Mae'n helpu i lywio'r ffordd rydym yn cynnal ein busnes bob dydd ac yn sicrhau ein bod bob amser yn ymdrechu i “wneud y peth iawn”. Oherwydd ei bwysigrwydd, mae diwylliant cwmni weithiau yn cael ei ddisgrifio fel haen o reolaeth sy'n rhagflaenu'r llinell sicrwydd gyntaf rhag gwybodaeth anghywir hyd yn oed. Mae cynnal diwylliant cadarnhaol yn bwysig i ni am y rhesymau canlynol:

- mae pawb yn ymwybodol o'r disgwyliadau o ran gwybodaeth o ansawdd uchel;
- bydd rheolaethau eraill yn canolbwytio ar chwilio am wallau a'u cywiro, ond mewn diwylliant corfforaethol cadarnhaol, mae gwallau yn llai tebygol o godi gan fod unigolion yn creu, yn cofnodi ac yn trosglwyddo gwybodaeth yn gyflawn ac yn gywir fel rhan o'r ffordd maent yn gweithio;
- mae rheolaethau eraill wedi'u gosod ar ben y broses cofnodi gwybodaeth, ond mae rheolaethau diwylliannol wedi'u hymgorffori ynddi;
- gallai rheolaethau eraill fod yn rhai achlysurol neu gyfnodol, ond mae diwylliant yn barhaus ac yn barhaol;
- mae pawb yn gwybod y gallant fod yn onest am wallau sy'n ymwneud â data.

Llywodraethu corfforaethol yw'r system o reolau, arferion a phrosesau rydym yn eu rhoi ar waith er mwyn rhedeg ein busnes yn effeithiol, gan sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol ac yn rheoli ein risgiau yn effeithiol. Mae llywodraethu da yn hanfodol i bob un o'n gweithgareddau; mae'n helpu i feithrin ymddiriedaeth ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ac yn hyrwyddo prosesau gwneud penderfyniadau effeithiol.

Mae a wnelo diwylliant â phobl yn llawer mwy nag â rheolau. Mae ein Cod Ymddygiad yn llinell sylfaen; caiff diwylliant ei greu gan yr hyn a wnawn yn hytrach na'r hyn a ddywedwn.

O ran sicrwydd data, ystyriwn fod y nodweddion canlynol o'n diwylliant a'n fframwaith llywodraethu yn gryfderau allweddol:

- Dau o'n chwe Gwerth corfforaethol yw ymddiriedir ynom i wneud y peth iawn a sicrhau rhagoriaeth ym mhopeth a wnawn. Mae'r rhain yn ymwneud â thrin gwybodaeth cymaint ag unrhyw broses arall;
- Disgwylwn i'n holl reolwyr fod yn onest a dibynadwy a gweithredu ag uniondeb o hyd. Mae'r ffyrdd hyn o ymddwyn i'w cael yn ein Fframwaith Ymddygiad Corfforaethol;
- Mae ein cydweithwyr yn deall ac yn gwerthfawrogi gwerth ansawdd data a'r prosesau a ddefnyddir i gynhyrchu'r data. Mae'r Adran Reoleiddio yn darparu cyngor a chanllawiau ar ffurf Pecynnau Gwybodaeth a sesiynau hyfforddi priodol;
- Mae ein Fframwaith Ymddygiad Corfforaethol a'r Cod Ymddygiad yn annog cydweithwyr i fod â'r hyder i godi unrhyw bryderon a thynnu sylw at wybodaeth anghywir neu awgrymu gwelliannau i brosesau sy'n bodoli eisoes a fydd yn gwella ansawdd data. Caiff yr opsiynau sydd ar gael i gydweithwyr sydd am godi unrhyw bryderon eu nodi yn ein gweithdrefn Chwythu'r Chwiban;
- Cynhelir adolygiadau rheolaidd o berfformiad ar draws y cwmni o lefel Bwrdd i lefel unigol. Mae hyn yn cynnwys y rhai a gynhelir gan y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio, y Prif Swyddog Gweithredu, y Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd a thîm Gweithredol Dŵr Cymru;
- Mae'r Archwilydd Technegol (Jacobs) yn adolygu ac yn ardystio'r holl Fesurau Perfformiad a detholiad o ddata rheoliadol eraill yn ffurfiol ac yn darparu adroddiad manwl sy'n cyfeirio at gydymffurfiaeth â gweithdrefnau a gofynion adrodd rheoliadol perthnasol ac yn tynnu sylw at unrhyw broblemau â'r ffigurau a gofnodir. Mae hyn yn cynnwys gwirio ffynhonnell y data, crynhoi'r data gan gynnwys unrhyw brosesau allosod ac asesu p'un a yw'r data a gofnodir yn ddigonol. Hefyd, mae'r Archwilydd Technegol yn adolygu ac yn sgorio ein holl Ddatganiadau Methodoleg sy'n bodoli ar gyfer ein holl fesurau allweddol a data rheoliadol perthnasol eraill;
- Cyn cyhoeddi'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol, mae'r tîm Sicrwydd Busnes mewnol yn cynnal archwiliad a gwerthusiad manwl o'r systemau sydd ar waith fel rhan o fframwaith adrodd DCWW ac yn adolygu effeithiolrwydd y system rheoli risg, rheolaethau a llywodraethu;
- Caiff rhaglen archwilio mewnol ei chymeradwyo a'i goruchwyllo gan y Pwyllgor Archwilio er mwyn asesu digonolrwydd prosesau rheoli, llywodraethu a rheoli risg. Caiff canlyniadau'r archwiliadau hyn eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio, sy'n sicrhau bod unrhyw gamau sy'n deillio o archwiliadau mewnol yn cael eu cwblhau'n amserol;
- Mae rhai o'n rhanddeiliaid allweddol hefyd yn cynnal archwiliadau ac yn craffu ar ein data. Er enghraifft, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal archwiliad blynyddol o'n data Hunanfonitro Gweithredwr ar gyfer gweithfeydd trin dŵr gwastraff. Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr hefyd yn cynnal asesiadau rheolaidd o'n proses o ddelio â chwynion ysgrifenedig gan gwsmeriaid ac yn adolygu ein proses dyledion;
- Mae gennym broses rheoli risg sefydledig sy'n nodi, yn asesu ac yn rheoli ein risgiau. Mae pob cydweithiwr yn chwarae rhan mewn gwaith rheoli risg. Mae timau unigol o fewn y busnes yn cymryd cyfrifoldeb am reoli risgiau o fewn eu meysydd o gyfrifoldeb. Caiff y rhain eu trafod bob mis mewn cyfarfod o Dîm Gweithredol Dŵr Cymru. Caiff diweddariad y Tîm hwn ar risgiau strategol sy'n effeithio ar y busnes ei adolygu ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd;
- Mae prosesau monitro rheolaeth ariannol cadarn yn darparu sicrwydd bod ein rheolaethau ariannol allweddol yn gweithredu'n effeithiol ac y gallwn ymddiried yn y wybodaeth ariannol a gaiff ei llunio gan ein system gyfrifyddu;
- Mae ein System Reoli Integredig, sydd wedi'i hardystio i Safonau ISO amrywiol, wedi'i sefydlu er mwyn atgyfnerthu'r gwaith o reoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â llawer o feysydd o'n busnes a chydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rheoliadol a deddfwriaethol. Caiff archwiliadau o gydymffurfiaeth â'r system hon eu cynnal yn fewnol a chan ein hardystwyr trydydd parti (BSI).

6 PWYSIGRWYDD YMGYSYLLTU Â RHANDEILIAID

Mae'r gweithgareddau sicrwydd a gyflawnir gennym ar bob cam o'r broses a'r ffordd rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a ddarparwn yn ddefnyddiol ac yn berthnasol i'w hanghenion yn allweddol i fframwaith monitro ein cwmni.

Ystyriwyd yr adborth a gawsom o'r ymgynghoriad ar ein Datganiad o Risgiau, Cryfderau a Gwendidau a'n Cynllun Sicrwydd y llynedd. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno â'r meysydd wedi'u targedu roeddem wedi'u nodi ac ni wnaethant nodi unrhyw feysydd ychwanegol. Roeddent hefyd yn gefnogol i'n dull sicrwydd ac ni nodwyd unrhyw fylchau yn y naill ddogfen na'r llall ac rydym wedi ystyried y trafodaethau a'r sylwadau wrth lunio'r ddogfen hon.

Mae'r Grŵp Herio Cwsmeriaid yn helpu i sicrhau bod cwsmeriaid, nawr ac yn y dyfodol, wrth wraidd y ffordd rydym yn gweithredu. Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda'r Grŵp Herio Cwsmeriaid er mwyn sicrhau y gall herio'r cwmni a rhoi barn annibynnol ar ansawdd ein gweithgarwch ymgysylltu â chwsmeriaid a'r graddau y mae canlyniadau'r gweithgarwch ymgysylltu hwn yn llywio prosesau gwneud penderfyniadau.

Rydym wedi sefydlu [Protocol Ymgysylltu â Rhanddeiliaid](#) sy'n sail i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid.

Fel rhan o raglen ymgysylltu barhaus, cawn drafodaethau rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol ac rydym yn gwerthfawrogi eu hadborth er mwyn datblygu a gwella ein Cynllun Sicrwydd.



7 Y BROSES ASESU RISG A GWERTHUSO RISGIAU, CRYFDERAU A GWENDIDAU

7.1 Ein hasesiad o risgiau ansawdd data

Diffinnir risg fel canlyniad ansicr yn y dyfodol a fydd, os bydd yn digwydd, yn cael effeithiau negyddol ar ansawdd a dibynadwyedd gwybodaeth a gyhoeddir. Pennir Risg ar sail cyfuniad o'i thebygolrwydd a mesur o'i heffaith petai'n digwydd. Mae a wnelo risg â'r lefel o ddisgwyliad y caiff data anghywir neu anghyflawn eu cyflwyno i'n rhanddeilaid yn y dyfodol a'r canlyniadau posibl.

Caiff proffil Risg cyffredinol data rheoliadol a geir yn yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol ei bennu drwy asesu'r tebygolrwydd y bydd yn cynnwys gwall ac effaith y gwall hwn ar y busnes. Felly, mae'r Matrics Risg yn cynnwys dau fetrig cydrannol – y Metrig Effaith a'r Metrig Tebygolrwydd. Mae'r Sgôr Risg Gyffredinol yn gyfuniad o'r ddau fetrig.

Yn y tabl isod dangoswn sut rydym yn blaenoriaethu meysydd a all fod angen mwy o sicrwydd.

Tabl – Matrics o Effaith a Thebygolrwydd y Risgiau

Sgôr Metrig Effaith	4				
	3				
	2				
	1				
		1	2	3	4
		Sgôr Metrig Tebygolrwydd			
		Risg Isel			
		Risg Isel-canolig			
		Risg Uchel-canolig			
		Risg Uchel			

Bydd angen i unrhyw faes â mwy o debygolrwydd a mwy o effaith a geir yn y parthau risg coch "uchel" neu "uchel-canolig" oren gael mwy o sicrwydd na'r rheini a geir yn y parthau risg "isel-canolig" oren neu "isel" gwyrdd.

Mae'r Metrig Tebygolrwydd yn brocsi i elfen tebygolrwydd Risg ac mae'r Metrig Effaith yn brocsi i elfen effaith Risg. Caiff y Metrigau Effaith a Thebygolrwydd eu diffinio fel a ganlyn:

- **Metrig Effaith:** mesur i gynrychioli effaith Risg a nodir sy'n dwyn ffrwyth. Mae'n ymwneud ag effaith ddisgwyliedig data anghywir neu anghyflawn ar randdeiliaid, ein cyllid, ein henw da a'r sylw a gawn yn y cyfryngau. Caiff ei sgorio drwy asesu pob mesur data perfformiad yn erbyn y categorïau effaith penodol;
- **Metrig Tebygolrwydd:** mesur i gynrychioli effaith data anghyflawn neu anghywir. Caiff ei sgorio drwy werthuso'r prosesau ar gyfer casglu data, adrodd ar ddata, a'r systemau a'r prosesau rheoli cysylltiedig.

7.2 Canlyniadau asesu effaith risgiau ansawdd data

Mae gan y Metrig Tebygolrwydd bedair sgôr, 1 i 4, gyda 4 yn dynodi'r effaith andwyol fwyaf ac 1 yn dynodi'r effaith andwyol isaf a welid (mewn senario waethaf realistig) am fod data anghywir neu anghyflawn wedi'u defnyddio.

I gyfrifo'r Metrig Effaith defnyddiwn y tri chategori canlynol a sgôr o 1 i 4:

- Ariannol;
- Enw da (gan gynnwys sylw yn y cyfryngau);
- Rhanddeiliaid.

I gyfrifo sgôr effaith gyffredinol ar gyfer Mesur Perfformiad, cymerwn sgôr uchaf pob categori effaith. Ystyriwn mai'r asesiad o effaith yw effaith gysylltiedig data anghywir neu anghyflawn ac nid yr effaith sy'n gysylltiedig â pherfformiad gwael y gallai'r data ei ddatgelu. Wrth wneud hynny, tybiwn senario waethaf "realistig".

7.3 Dull o asesu tebygolrwydd risgiau o ran ansawdd data

Mae gan y Metrig Tebygolrwydd bedair sgôr, o 1 i 4, gyda 4 yn dynodi'r tebygolrwydd mwyaf ac 1 yn dynodi'r tebygolrwydd isaf o ddata anghywir neu anghyflawn. Ceir saith categori a gaiff eu sgorio ar gyfer pob Mesur Perfformiad er mwyn cyfrifo ei sgôr tebygolrwydd. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- | | | | |
|----|--|---|------------------------------|
| 1. | I1. Cymhlethdod ffynonellau data | } | Tebygolrwydd Cynhenid |
| 2. | I2. Cyflawnrwydd set ddata | | |
| 3. | I3. Graddau ymyriad â llaw | | |
| 4. | I4. Cymhlethdod ac aeddfedrwydd rheolau adrodd | | |
| 5. | C1. Gweithgareddau rheoli | } | Fframweithiau Rheoli |
| 6. | C2. Profiad personél | | |
| 7. | C3. Tystiolaeth o wallau hanesyddol gyda'r data hyn | | |

Mae I1 i I4 yn adlewyrchu'r tebygolrwydd cynhenid (I) o wall lle na chaiff unrhyw reolaethau ychwanegol (ar ben rheolaethau system neu broses cyffredinol) eu defnyddio i leihau Risg.

Mae C1 i C3 yn adlewyrchu'r fframwaith rheoli (C) sydd ar waith er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o wall. Drwy gyfuno'r rhain ceir y tebygolrwydd cyffredinol o wall, gan ystyried unrhyw reolaethau sydd ar waith.

Mae'r sgôr tebygolrwydd gyffredinol yn amrywio o 1 i 4 ac, os yw pob ffactor arall yn gyson, dylai Risg gynhenid uchel neu amgylchedd rheoli gwan arwain at sgôr Risg uwch. Dylai Risg gynhenid isel neu amgylchedd rheoli cryf arwain at sgôr Risg is.

Gallem ddisgwyl gweld mwy o amrywiad rhwng Mesurau Perfformiad yn y Sgoriau Metrig Tebygolrwydd nag y byddem yn ei ddisgwyl ar gyfer Sgoriau Metrig Effaith. Y rheswm dros hyn yw y bydd gan bob Mesur Perfformiad wahanol systemau adrodd, prosesau, ac amgylcheddau rheoli ar gyfer data adrodd.

Enghraifft i helpu i egluro'r broses sgorio.

Gan gymryd un o'n Mesurau o Lwyddiant, Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig A1b, mae'r tabl isod yn helpu i egluro'r sgôr risg ymhellach.

Mesur o Lwyddiant A1b – Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig													
Metrig Effaith				Tebygolrwydd Cynhenid					Fframweithiau Rheoli				
Ariannol	Enw da	Rhanddeiliaid	Sgôr Effaith	I1 Cymhlethdod ffynonellau data	I2 Cyflawnrwydd set ddata	I3 Graddau ymyriad â llaw	I4 Cymhlethdod/aeddf edrwydd rheolau adrodd	Sgôr Uchaf	C1 Gweithgareddau rheoli	C2 Profiad personél	C3 Tystiolaeth o wallau hanesyddol	Sgôr Gyfartalog	Sgôr Tebygolrwydd
3	4	4	4 A	3	2	2	2	3 B	1	2	2	1.7 C	1.3
Dirwy fawr o £10m am fethu targedau.	Byddai ein henw da gyda chwsmeriaid yn dioddef.	Angen i ddata fod yn gwbl gywir.		Caiff data eu rhoi ar ein system LIMS sydd wedyn yn diweddarw ein QDB yn	Swm sylweddol o ddata ond set gyflawn, yr adroddwyd arnynt ers sawl blwyddyn.	Ymyriad cyfyngedig â llaw, ond rhai archwiliadau o ansawdd â llaw ar ben yr archwiliadau	Adroddwyd ar y set ddata ers sawl blwyddyn gyda chanllawiau adrodd i reoleiddwyr.		Rheolaethau hirsefydledig ar waith.	Tîm profiadol sefydledig.	Adroddwyd ar ddata heb unrhyw wallau hanesyddol.		Cyf B-C 1.3

Sgôr Metrig Effaith	4	MZC			
	3				
	2				
	1				
	1	2	3	4	
	Sgôr Metrig Tebygolrwydd				

Risg Isel
Risg Isel-canolog
Risg Uchel-canolog
Risg Uchel

O'r enghraifft sgorio risg uchod mae Mesur o Lwyddiant A1b Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig (MZC) yn sgorio 4 (Sgôr Effaith) ac 1.3 (Sgôr Tebygolrwydd). Cymerir y sgôr Effaith o golofn A. Cyfrifir y sgôr metrig Tebygolrwydd drwy gymryd y sgôr tebygolrwydd cynhenid uchaf (colofn B) llai'r sgôr gyfartalog ar draws y fframwaith rheoli (colofn C). Felly, bydd hyn yn y blwch uchaf ar y chwith ac mae'n risg isel (effaith uchel ond tebygolrwydd isel).

Mae hon yn broses fanwl gywir ac yn un a gymhwyswyd at bob un o'r Mesurau Perfformiad a geir yn FD14, ynghyd â nifer o fetrigau perfformiad eraill y gwyddom eu bod yn bwysig i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid. Caiff y canlyniad ei grynhoi yn y Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd yn Atodiad 1.

O ran dogfennau allweddol eraill a rhannau gwahanol o'r busnes lle adroddir ar ddata, e.e. Adolygu Prisiau a Gwybodaeth am y Farchnad, rydym wedi cynnal asesiad risg uchel o bob maes. Mae hyn yn cynnwys ymarfer sy'n pennu proffil cyffredinol y risg benodol i ansawdd data drwy gyfeirio at debygolrwydd y risg a'r effaith debygol ar y busnes. Caiff canlyniadau'r ymarfer hwn eu crynhoi yn y Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd yn Atodiad 2.

8 DATGANIAD O RISGIAU, CRYFDERAU A GWENDIDAU

Credwn fod ein dull o asesu risg, llywodraethu a rhoi sicrwydd yn gweithio'n dda ac rydym yn ystyried bod hyn yn gryfder allweddol yn ein system adrodd.

Yn dilyn yr ymarfer eleni, nodwyd bod proffil risg chwech o'r saith Mesur Perfformiad a dargedwyd a nodwyd yn asesiad 2017/18 yr un peth, h.y. roeddent yn y categori 'isel-canolig'. Mae'r un Mesur Perfformiad a dargedwyd yn flaenorol (Mesur o Lwyddiant E2 Helpu Cwsmeriaid dan Anfantaïs) wedi gwella i gategori 'risg isel' (gweler y Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd yn Atodiad 1).

Roedd hyn yn ôl y disgwyl am mai'r Mesurau Perfformiad penodol sy'n dal i fod yn y categori 'isel-canolig' yw:

- yn naturiol gymhleth ac mae angen barn oddrychol arnynt;
- yn dibynnu ar ddata o ffynonellau allanol; a/neu
- yn arwyddocaol o ran y cosbau ariannol a roddir os na fydd perfformiad yn cyrraedd y targedau a bennwyd ym Mhenderfyniad Terfynol 14.

O ran sicrwydd data, mae rôl bwysig yr Archwilydd Technegol eisoes wedi'i hamlinellu ar dudalen 15.

Yn ei Adroddiad Sicrwydd Adroddiad Perfformiad Blyneddol 2017/18, daeth yr Archwilydd Technegol i'r casgliad canlynol: *“Overall across all the areas we have reviewed, we observed robust processes and reporting procedures.”*

Ar gyfer pob Mesur Perfformiad, bydd yr Archwilydd Technegol yn darparu'r canlynol:

- Dadansoddi rheolaethau rheoli, trefniadau llywodraethu, prosesau adolygu a goruchwyllo annibynnol, cwmpas archwiliadau, effaith, risg gynhenid a rheolaethau ar gyfer pob mesur;
- Adolygu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd a digonolrwydd dogfennau methodoleg;
- Sicrhau bod y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn cydymffurfio â'r Datganiadau cytûn am Fethodoleg;
- Cadarnhau'r ffynonellau a digonolrwydd a chyflawnder y data a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad;
- Archwilio'r ffigurau a gofnodwyd er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r data sylfaen a'u bod wedi'u crynhoi'n gywir o'r data sylfaen hynny;
- Cadarnhau bod trywyddau archwilio cadarn a thryloyw ar waith;
- Gwneud argymhellion er mwyn gwella sicrwydd, os oes angen.

O ganlyniad, ac yn amodol ar unrhyw adborth gan randdeiliaid, nid ydym yn bwriadu targedu unrhyw un o'r chwe mesur perfformiad sydd yn y categori 'isel-canolig' gan ein bod o'r farn bod y prosesau sicrwydd presennol a ategir gan y sicrwydd a gymhwyswyd gan yr Archwilydd Technegol ac a ddisgrifir yn y paragraff uchod yn ddigon cadarn.

O ran y data Asesu Cost (yr adroddir arnynt bellach yn yr Adroddiad Perfformiad Blyneddol), y llynedd gwnaethom gymryd yr un camau a chyhoeddi Matrics Effaith a Thebygolrwydd annibynnol ar gyfer Data ar Gostau (gweler adran 8.1 am ragor o fanylion). Eleni, mae'r holl ddata hyn a'r asesiad risg dilynol wedi'u cwmpasu gan asesiad risg cyffredinol yr Adroddiad Perfformiad Blyneddol a ddangosir yn Atodiad 2.

Rydym yn parhau i adolygu ein prosesau a'n gweithdrefnau ar gyfer adrodd gwybodaeth gywir.

Ein her yw rhoi gwybodaeth ddibynadwy, amserol a phriodol i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Fel rhan o'r broses hon, nodwyd nifer o weithgareddau newydd a oedd yn haeddu cael eu hystyried yn ein dadansoddiad o risgiau, cryfderau a gwendidau.

Mae'r gweithgareddau hyn, ynghyd â'r gweithgareddau sy'n weddill o Gynllun Sicrwydd y llynedd, wedi'u cynnwys yn y Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd yn Atodiad 2.

Mae'r canlyniadau o'n hymarfer risgiau, cryfderau a gwendidau wedi ein galluogi i ddatblygu Cynllun Sicrwydd Drafft wedi'i dargedu ar gyfer 2018/19. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Cynllun Sicrwydd Drafft yn cynnwys amrywiaeth eang o gamau rheoli a lliniaru a gynlluniwyd er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu ymddiried yn y wybodaeth a gyhoeddir gennym. Yn adran 9 o'r ddogfen hon, nodwn y gweithgarwch parhaus neu arfaethedig i liniaru'r fath risgiau a gwendidau fel y nodwyd fel y gall rhanddeiliaid ymddiried yng nghywirdeb a chyflawnrwydd ein gwybodaeth gyhoeddedig, a bod yn hyder ynddi.

Fel rhan o'n hymgyngoriad â rhanddeiliaid ar gyfer ymarfer Risgiau, Cryfderau a Gwendidau eleni codwyd mater Seiberddiogelwch. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu dull y cwmni o ymdrin â'r risg hon yn rheolaidd. Mae'r Pwyllgor yn ystyried effeithiolrwydd cymharol gweithdrefnau'r cwmni ar gyfer rheoli risg yn y maes hwn o gymharu â rhai busnesau tebyg. Hefyd, ym mis Mehefin 2017, cawsom ardystiad Cyber-Essentials plus ac rydym yn gweithio tuag at achrediad ISO 27001 ar gyfer ein rheolaethau diogelu gwybodaeth. O ganlyniad, ar y cam hwn nid ystyriwn fod angen i anghenion Seiberddiogelwch gael eu targedu'n benodol yn ein Cynllun Sicrwydd Drafft



8.1 Data Asesu Cost – (a gwmpesir yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol bellach)

Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddodd Ofwat Hysbysiad Gwybodaeth a oedd yn nodi ei ddisgwyliadau ar gyfer adrodd ar berfformiad blynyddol yn 2016/17. Roedd yr Hysbysiad yn datgan ei fod yn gofyn i gwmnïau ddarparu gwybodaeth a fydd yn llywio ei asesiad cost o fewn marchnadoedd a'i waith o osod prisiau yn y dyfodol. Disgrifiodd 2016/17 fel "blwyddyn bontio" ac er ei bod yn gofyn i gwmnïau ddarparu gwybodaeth i Ofwat ar wahân, nid oedd hynny'n rhan o Adroddiadau Perfformiad Blynyddol y cwmnïau. Fodd bynnag, dywedodd Ofwat wedyn y dylai cwmnïau gyhoeddi a chynnwys data Asesu Cost yn eu Hadroddiadau Perfformiad Blynyddol.

Gan fod Ofwat bellach wedi cynnwys data Asesu Cost yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, nid oes angen rhestru hyn ar wahân yn ein cynllun Sicrwydd am fod y cyfan yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol sydd â phrosesau sicrwydd cadarn ar waith eisoes.



9 CYNLLUN SICRWYDD DRAFFT

Yn yr adran hon, nodwn ein Cynllun Sicrwydd Drafft arfaethedig ar gyfer 2018/19.

9.1 Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2018/19

Adroddiad blynyddol yw hwn sy'n darparu gwybodaeth am gostau, perfformiad ariannol a'n perfformiad yn erbyn canlyniadau cwsmeriaid a'n hymrwymadau iddynt. Caiff ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019.

Bydd yr holl ddata a gofnodir yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn destun proses tair llinell o sicrwydd strwythuredig:

1. Yn y llinell gyntaf o sicrwydd y rheolwyr sy'n gyfrifol am nodi risgiau a'u rheoli drwy ddatblygu a chynnal prosesau, systemau a rheolaethau cadarn yn ystod eu gweithrediadau arferol.
2. Yn yr ail linell o sicrwydd y tîm Rheoleiddio neu Gyllid sy'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cyflwyno adroddiadau rheoliadol;
3. Mae'r drydedd linell o sicrwydd yn darparu gweithgareddau archwilio a gweithgareddau sicrwydd annibynnol drwy ein tîm Sicrwydd Busnes, y mae'r ddau ohonynt yn adolygu'r fframwaith sicrwydd ac yn rhoi sicrwydd seiliedig ar risg mewn perthynas ag elfennau unigol. Bydd y wybodaeth yn y ddogfen hon hefyd yn destun proses sicrwydd gan yr Archwilydd Ariannol neu'r Archwilydd Technegol.

Adran	Disgrifiad	Gweithgareddau sicrwydd
Adran 1 o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol: Adroddiadau ariannol rheoliadol	Gwybodaeth ariannol am gostau hanesyddol. Dadgyfuno incwm, o safbwynt cyfrifyddu rheoliadol, gan gysoni â chyfrifon statudol DCWW.	1. Mae darparwyr data, eu rheolwyr a chyfarwyddwyr unedau busnes yn cynhyrchu data ac yn llunio sylwebaethau, methodolegau a thrywyddau archwilio, ac yn eu cymeradwyo, er mwyn ategu'r perfformiad a gofnodwyd a dangos y gwiriadau rheoli a ddefnyddiwyd. 2. Adolygiad y tîm cyllid o wybodaeth a thrywyddau archwilio. 3. Gwaith archwilio a barn yr Archwilydd Ariannol yn unol â gofynion archwilio Ofwat.
Adran 2 o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol: Adolygu prisiau ac adroddiadau cylchrannol eraill	Gwahanu refeniw a chostau ymhellach er mwyn galluogi rhanddeiliaid i adolygu perfformiad cwmnïau yn erbyn FD14.	1. Mae darparwyr data, eu rheolwyr a chyfarwyddwyr unedau busnes yn cynhyrchu data ac yn llunio sylwebaethau, methodolegau a thrywyddau archwilio, ac yn eu cymeradwyo, er mwyn ategu'r perfformiad a gofnodwyd a dangos y gwiriadau rheoli a ddefnyddiwyd. 2. Adolygiad y tîm cyllid o wybodaeth a thrywyddau archwilio.

Adran	Disgrifiad	Gweithgareddau sicrwydd
		3. Gwaith archwilio a barn yr Archwilwyr Ariannol yn unol â gofynion archwilio Ofwat.
Adran 3 o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol: Crynodeb o berfformiad	Adroddiad lefel uchel ar berfformiad gweithredol y busnes yn erbyn yr ymrwymadau perfformiad a nodir yn FD14, gan nodi unrhyw gymhellion ariannol sy'n gymwys yn ystod y flwyddyn.	1. Mae darparwyr data, eu rheolwyr a chyfarwyddwyr unedau busnes yn cynhyrchu data ac yn llunio sylwebaethau, methodolegau a thrywyddau archwilio, ac yn eu cymeradwyo, er mwyn ategu'r perfformiad a gofnodwyd a dangos y gwiriadau rheoli a ddefnyddiwyd. 2. Adolygiad y tîm rheoleiddio o wybodaeth a thrywyddau archwilio. 3. Mae'r Archwilwyr Technegol yn adolygu'r data a'r sylwebaeth ac yn rhoi eu barn i'r Bwrdd.
Adran 4 o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol: Tablau rheoliadol ychwanegol	Gwybodaeth ariannol ac anariannol ychwanegol, gan gynnwys perfformiad cyfanswm gwariant cyfanwerthol yn erbyn tybiaethau FD14 a metrigau cost uned rhwng cwmnïau, dadansoddiad o gostau gweithredu manwerthol a metrigau ariannol.	1. Mae darparwyr data, eu rheolwyr a chyfarwyddwyr unedau busnes yn cynhyrchu data ac yn llunio sylwebaethau, methodolegau a thrywyddau archwilio, ac yn eu cymeradwyo, er mwyn ategu'r perfformiad a gofnodwyd a dangos y gwiriadau rheoli a ddefnyddiwyd. 2. Adolygiad y timau cyllid a rheoleiddio o wybodaeth a thrywyddau archwilio. 3. Adolygiad yr Archwilwyr Ariannol a/neu'r Archwilwyr Technegol o dablau perthnasol yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.
Adran 5: Datganiad Risg a Chydymffurfiaeth	Yn galluogi cwmnïau i ddangos tystiolaeth o'u hatebolrwydd i'w cwsmeriaid a dangos i Ofwat eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau.	1. Atebolrwydd am gyflawni rhwymedigaethau trwydded, rheoliadol a statudol a roddir i unigolion penodol. 2. Canllawiau gan Ofwat ar ffurf Canllawiau Cyfrifyddu Rheoliadol a Hysbysiadau Gwybodaeth. 3. Dogfen strategaeth flynyddol wedi'i pharatoi gan Reolwr Cydymffurfio DCWW er mwyn sicrhau bod holl ofynion Ofwat yn cael eu bodloni. 4. Risgiau yn cael eu trafod yn holl gyfarfodydd Tîm Gweithredol Dŵr Cymru 5. Diweddariad Tîm Gweithredol Dŵr Cymru yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd. 6. Adolygiad yr Archwilydd Technegol o ddatganiadau er mwyn sicrhau

Adran	Disgrifiad	Gweithgareddau sicrwydd
		cydymffurfiaeth â chanllawiau Ofwat. 7. Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio. 8. Cymeradwyaeth gan y Bwrdd.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft.

Mae hwn yn gyhoeddiad craidd sy'n cynnwys gwybodaeth am ein perfformiad yn erbyn canlyniadau FD14. Mae hwn yn faes pwysig allweddol i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ac mae'n haeddu cael ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd o hyd.

9.2 Mesurau Perfformiad (Cymhellion Cyflawni Canlyniadau)

Ym mis Ebrill 2015 cyflwynwyd ein Cynllun Cymhellion Cyflawni Canlyniadau newydd. Mae'n cynnwys cyfres gynhwysfawr o fesurau ariannol ac anariannol y bwriedir iddynt ein herio i fodloni disgwyliadau cwsmeriaid ym mhob ffordd ac ar bob achlysur a, lle bo'n briodol, sicrhau y cânt eu digolledu'n briodol pan fyddwn yn methu â pherfformio yn ôl y disgwyliadau hynny.

Defnyddiwyd y Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd ar gyfer 2018/19 (Atodiad 1) er mwyn asesu a oedd angen rhoi unrhyw weithgareddau sicrwydd ychwanegol ar waith mewn perthynas ag unrhyw fesurau penodol. Mae Atodiad 1 yn dangos nad oes unrhyw Fesurau Perfformiad yn y parth coch (risg uchel) na'r parth oren (risg uchel-canolig).

Ein nod fydd nodi cyfleoedd i atgyfnerthu ein fframwaith rheoli ymhellach. Byddwn yn cyflawni hyn drwy gymhwyso'r broses tair llinell o sicrwydd a dibynnu ar y rhaglen waith a gyflawnir gan yr Archwilydd Technegol fel y disgrifir yn adran 8 o'r ddogfen hon.

Camau rheoli a lliniaru

- Mae cardiau sgorio mewnol yn dangos perfformiad yn erbyn y mesurau allweddol bob mis ym mhob rhan o'r busnes a hyd at lefel y Bwrdd.
- Adolygu'r broses gyda'n Grŵp Herio Cwsmeriaid sydd â rôl i'w chwarae o ran herio ein hadroddiadau.
- Pecynnau Gwybodaeth a sesiynau hyfforddi a drefnir gan y Tîm Rheoleiddio ar gyfer pob perchennog data.
- Datblygwyd Datganiadau am Fethodoleg mewnol manwl sy'n cynnwys canllaw cam wrth gam ar sut y ceir y data, y rhwystrau a'r gwrthbwysau sydd ar waith, unrhyw dybiaethau a wneir ac unrhyw hepgoriadau.
- Caiff Datganiadau am Fethodoleg eu hadolygu a rhoddir sgôr iddynt gan yr Archwilydd Technegol.
- Cymeradwyir y data gan berchennog y data, y rheolwr busnes (lle y bo'n briodol) a'r Cyfarwyddwr perthnasol.
- Mae'r Tîm Rheoleiddio yn cynnal cyfarfodydd diwydrwydd dyladwy â pherchenogion data er mwyn adolygu data, methodoleg, perfformiad a thrywyddau archwilio ategol.
- Archwiliad manwl trydydd parti o'r broses casglu a chofnodi data gan ein Harchwilydd Technegol, er mwyn rhoi sicrwydd y gellir cofnodi'r data yn ddibynadwy ac yn gywir ac yn unol ag unrhyw ofynion adrodd perthnasol. Mae hyn yn cynnwys hapwiriadau i brofi'r prosesau, y tybiaethau, y fethodoleg, y broses o'i rhoi ar waith, y trefniadau llywodraethu a'r canlyniadau.
- Archwiliad lefel uchel o'r fframwaith adrodd a gynhelir gan y Tîm Sicrwydd Busnes mewnol.
- Cynhelir adolygiad gan Dîm Gweithredol Dŵr Cymru a rhoddir diweddariadau i'r Pwyllgor Archwilio.
- Datganiad Sicrwydd gan y Bwrdd ar gyfer data perfformiad yn yr Adroddiad Perfformiad Blyneddol.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Mae hwn yn faes pwysig allweddol i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ac mae'n haeddu cael ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd o hyd. Mae ein matrics sgorio risg, cryfderau a gwendidau (a eglurir yn adran 7) yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y Mesurau Llwyddiant hynny a allai esgor ar wob'r ariannol neu ddirwy.

9.3 Adrodd Cylchrannol

Dechreuodd cyfnod rheoli prisiau newydd yn 2015/16 gyda systemau rheoli prisiau ar wahân ar gyfer cyfanwerthu (dŵr a dŵr gwastraff) a manwerthu (preswyl a dibreswyl). Yn sgil y penderfyniad i gyflwyno mwy o gystadleuaeth, rydym am sicrhau y gall ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid barhau i fod yn hyderus bod costau yn cael eu hadlewyrchu'n gywir.

Roedd ein Adroddiadau Perfformiad Blynyddol am y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf yn cynnwys cryn dipyn o wybodaeth ariannol heb ei chyfuno, gydag incwm a gwariant yn cael eu hadrodd yn erbyn y gwahanol reolaethau prisiau, yn ogystal â gwahanol unedau cyfrifyddu, a fydd yn parhau, gyda gofynion adrodd ychwanegol yn cael eu cynnwys yn Rhan 4 ar gyfer 2017/18 a datblygiadau pellach yn cael eu disgwyl cyn adroddiad 2018/19. At hynny, caiff dwy System Rheoli Prisiau newydd eu cyflwyno yn 2020, h.y. Bioadnoddau ac Adnoddau Dŵr. Felly, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gofnodi gwybodaeth ariannol yn unol â'r canllawiau rheoliadol gofynnol ar adroddiadau cylchrannol. Bydd y gweithgareddau sicrwydd arfaethedig, sy'n cynnwys gweithgarwch sicrwydd allanol a gynhelir gan drydydd partïon annibynnol, yn parhau i roi cryn dipyn o hyder yn y ffigurau a gofnodir gennym.

Camau rheoli a lliniaru

- Adolygiadau misol gan ddeiliaid cyllidebau er mwyn esbonio amrywiannau a nodi gwallau dyrannu posibl.
- Adolygir cyfrifon rheoli misol gan uwch reolwyr a Thîm Gweithredol Dŵr Cymru.
- Caiff y rhestr wirio o Ganllawiau Cyfrifyddu Rheoliadol Ofwat ei chwblhau a'i hadolygu gan Reolwr Ariannol y Grŵp.
- Caiff systemau rheoli prisiau ac adroddiadau cylchrannol yn Rhan 2 o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol farn archwilio Archwilydd Ariannol Annibynnol yn unol â gofynion archwilio Ofwat.
- Mae systemau rheoli prisiau ac adroddiadau ariannol cylchrannol yn y tablau rheoliadol ychwanegol yn Rhan 4 o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn destun craffu gan yr Archwilydd Ariannol Annibynnol yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.
- Newid rôl y Cyfrifydd Ariannol a Rheoliadol o lunio data i gydlynu a llywodraethu er mwyn sicrhau y caiff yr allbynnau gan y tîm cyfrifyddu rheoli eu cyflwyno'n amserol a'u hadolygu'n feirniadol. Rhydd hyn fwy o reolaeth a sicrwydd, a lefel adolygu ychwanegol ac adnoddau ychwanegol i ymdrin â gofynion adrodd newydd.
- Datblygwyd Datganiadau am Fethodoleg er mwyn darparu canllaw cam wrth gam ar sut i lunio pob tabl.
- Mae'r tîm Cyfrifyddu Rheoliadol wedi cyflwyno cyfres o sesiynau hyfforddi i'r tîm cyfrifyddu rheoli er mwyn sicrhau bod pob unigolyn sy'n gyfrifol am lunio data ariannol i'w cynnwys mewn adroddiadau rheoleiddiol yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau ei hun a'r Canllawiau Cyfrifyddu Rheoliadol perthnasol, a chynhelir polisi 'drws agored' er mwyn cynnig cymorth ac arweiniad ar feysydd dehongli.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Gan y bydd rheolaethau prisiau newydd yn cael eu cyflwyno yn 2020 ar gyfer Bioadnoddau ac Adnoddau Dŵr, mae adroddiadau cylchrannol yn parhau i fod yn faes pwysig iawn i'n rhanddeiliaid ac, o ganlyniad, mae'n rhan annatod o'n fframwaith sicrwydd. Mae'n dal i haeddu cael ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd.

9.4 Cynlluniau Taliadau

Mae'n ofynnol i ni gyhoeddi nifer o gynlluniau taliadau bob blwyddyn yn unol ag Amod Trwydded D a Rheolau Ofwat ar gyfer Taliadau. Mae'r dogfennau hyn yn nodi taliadau'r cwmni am wasanaethau a ddarperir a thelerau ac amodau'r taliadau hynny. Y dogfennau hyn yw:

Cynllun Taliadau – Mae'r ddogfen hon yn nodi taliadau'r cwmni am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth ar gyfer cwsmeriaid preswyl a dibreswyl.

Dogfen Tariff Cyfanwerthu – Mae'r ddogfen hon yn nodi'r taliadau sylfaenol ar gyfer cyflenwadau dŵr a gwasanaethau cyfanwerthol i safleoedd y gellid eu cyflenwi â dŵr gan drwyddedai cyflenwi dŵr gydag awdurdodiad manwerthu neu fanwerthu cyfyngedig. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys taliadau nad ydynt yn rhai sylfaenol a fyddai'n daladwy gan fanwerthwr dŵr am wasanaethau amrywiol a ddarperir gan ein busnes cyfanwerthu.

Rhestr Taliadau Gwasanaethau Datblygwyr – Mae'r ddogfen hon yn nodi'r taliadau ar gyfer cysylltiadau newydd a gweithgareddau eraill i gefnogi datblygwyr.

Camau rheoli a lliniaru

Mae pob Cynllun Taliadau yn dilyn yr un broses sicrwydd:

- Mae'r Cynlluniau Taliadau yn destun cyfres o adolygiadau gan aelodau o Dîm Cyfreithiol y cwmni er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.
- Ar ôl cael ei chwblhau, caiff pob adran o'r taliadau ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Grŵp Llywio Polisi Taliadau.
- Cymeradwyir y taliadau terfynol gan y Bwrdd.
- Rhoddir sicrwydd allanol, annibynnol ynglŷn â modelau taliadau a chaiff rheolau ac egwyddorion taliadau eu cymhwyso'n briodol.
- Rhoddir sicrwydd allanol, annibynnol ynglŷn â mewnbynnau data.
- Mae Llawlyfr Cydymffurfio â Thaliadau wedi'i baratoi ar gyfer taliadau 2018/19 sy'n cynnwys gwybodaeth i ddangos cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, rhwymedigaethau'r drwydded a rheolau taliadau. Mae'n dangos y broses sicrwydd a ddilynwyd ac yn cynnwys nifer o dablau a ddefnyddiwyd yn y broses i ddangos cydymffurfiaeth ac i ddarparu sicrwydd.

O ran y Datganiad Sicrwydd ar gyfer Cynllun Taliadau, mae'r Bwrdd yn rhoi ei gymeradwyaeth er mwyn cadarnhau:

- Bod cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r taliadau a nodir yn y Cynllun Taliadau.
- Bod effaith y taliadau newydd ar filiau cwsmeriaid wedi'i hasesu ar gyfer amrywiaeth o fathau gwahanol o gwsmeriaid.
- Bod systemau a phrosesau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod y data a'r wybodaeth a geir yn y Cynllun Taliadau ac unrhyw wybodaeth ychwanegol yn gywir.
- Bod y cwmni wedi ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr mewn ffordd amserol ac effeithiol mewn perthynas â'i Gynllun Taliadau.
- [Gwelliannau sydd yn yr arfaeth](#)

Ar gyfer cynlluniau taliadau 2019/20 bydd ein dull gweithredu o ran sicrwydd yn cael ei ehangu i gwmpasu tri maes:

1. Adolygiad mewnol o lif data o'r ffynhonnell drwy'r modelau a ddefnyddir i bennu taliadau i'r dogfennau taliadau gan adnoddau sy'n annibynnol ar y tîm taliadau.
2. Adolygiad cymheiriaid allanol annibynnol o'r modelau a ddefnyddir er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.

3. Archwiliad allanol o gydymffurfiaeth y wybodaeth a gyhoeddir â rheolau taliadau Ofwat.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Erys taliadau yn faes pwysig allweddol i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid sy'n haeddu parhau i gael ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd.



9.5 Cyhoeddiadau ar y Wefan

Mae'r gwaith o ddatblygu ein gwefan yn mynd rhagddo ac rydym yn cyhoeddi nifer o gyhoeddiadau allweddol ar ein gwefan bob blwyddyn er mwyn helpu i roi gwybodaeth i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Y llynedd, wrth fynd ati i ystyried cwmphas ein proses sicrwydd data, nodwyd bod hwn yn faes a ddylai gael ei gynnwys yn ein fframwaith sicrwydd. Rydym yn dal i gredu hynny ac, yn ein barn ni, mae'n bwysig bod cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn gallu cael gafael ar ystod eang o gyhoeddiadau y rhoddwyd sicrwydd priodol yn eu cylch ac nid dim ond gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn ein cyhoeddiadau rheoliadol craidd. Mae hwn yn faes rydym yn canolbwyntio arno o hyd.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allweddol a'r Grŵp Herio Cwsmeriaid i adolygu'r rhestr o gyhoeddiadau er mwyn sicrhau ei bod yn berthnasol. Dangosir y cyhoeddiadau rydym wedi'u cynnwys yn ein hadolygiad isod.

Cyhoeddiad	Disgrifiad	Camau Lliniaru
Adroddiad Perfformiad Blynnyddol	Gwybodaeth am sut rydym wedi perfformio	• Adolygiad y Tîm Cyllid/Tîm Rheoleiddio. • Cysoni data yn yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol â data yn yr Adroddiad Blynnyddol. • Craffu gan y Pwyllgor Archwilio. • Cymeradwyaeth y Bwrdd. • Archwiliad a barn annibynnol.
Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon	Gwybodaeth sy'n galluogi rhanddeiliaid i asesu perfformiad, model busnes a strategaeth y cwmni	• Cânt eu drafftio gan uwch reolwyr gyda chydgyssylltu gan Ddirprwy Ysgrifennydd y Cwmni. • Mae'r Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Cwmni yn gweithredu fel y golygydd er mwyn sicrhau cysondeb. • Adolygiadau gan aelodau o'r Tîm Gweithredol a phroses wirio sy'n cynnwys Archwilydd Ariannol y cwmni. • Adolygir y fersiwn ddrafft derfynol gan y Pwyllgor Archwilio cyn iddi gael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Bwrdd, a'i chyflwyno i Aelodau.
Cynllun Taliadau	Gwybodaeth am ein taliadau a'n polisiau presennol	• Sicrheir cydymffurfiaeth gyfreithiol gan dimau Cyfreithiol. • Cymeradwyaeth gan y Grŵp Llywio Polisi Taliadau. • Ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr. • Cymeradwyaeth y Bwrdd. • Archwiliad a barn annibynnol.

Cyhoeddiad	Disgrifiad	Camau Lliniaru
Codau Ymarfer	Manylion y lefelau gwasanaeth y gall cwsmeriaid eu disgwyl gennym	- Sicrheir cydymffurfiaeth gyfreithiol/rheoliadol gan dimau Cyfreithiol. - Ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr. - Cymeradwyaeth y Cyfarwyddwr. - Cyflwynir y codau i Ofwat.
	O fis Rhagfyr 2018, bydd addasiadau i'n Trwydded yn ei gwneud hi'n ofynnol i roi'r gorau i Godau Ymarfer a symud i'r cysyniad o Wybodaeth Cwsmer Graidd.	
Gwybodaeth safonol am ein llenyddiaeth filio	Gwybodaeth safonol a gynhwysir mewn biliau cwsmeriaid	- Sicrheir cydymffurfiaeth gyfreithiol/rheoliadol gan dimau Cyfreithiol. - Ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr. - Cymeradwyaeth y Grŵp Llywio Bilio Blyneddol.
Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr – adroddiadau chwarterol a blyneddol	Gwybodaeth a roddir i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr am wasanaethau cwsmeriaid, cwynion, gollyngiadau dŵr, mewnbwn dosbarthu a defnydd y pen	- Pan geir data o ymrwymadau perfformiad e.e. SIM mae'n destun y broses sicrwydd briodol. - Pan na cheir data o ymrwymadau perfformiad mae'r data yn destun proses sicrwydd ail linell, gan ymestyn i sicrwydd trydydd llinell ar gyfer adroddiad 2018/19.
Rhannu Data	Y diwydiant yn rhannu data perfformiad blyneddol. Cyhoeddir hefyd ar wefan Discover Water	- Adolygiad annibynnol gan yr Archwilydd Technegol. - Cysoni â data yn yr Adroddiad Perfformiad Blyneddol. - Proses diwydrwydd dyladwy a gynhelir gan y Tîm Rheoleiddio. - Cymeradwyaeth y Cyfarwyddwr.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Dyma sut mae ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid yn cael gwybodaeth am agweddau ar y busnes. Gan ein bod hefyd yn datblygu ein gwefan, bydd hyn yn parhau i fod yn faes sy'n haeddu cael ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd.

9.6 Cynllun Busnes Adolygiad Prisiau 2019

Bob pum mlynedd, mae Ofwat yn gosod cyfyngiadau ar y prisiau y gall cwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr eu codi ar eu cwsmeriaid. Adwaenir y broses hon fel adolygiad prisiau. Ar hyn o bryd, mae Ofwat yn gweithio ar adolygiad prisiau 2019 (a elwir yn PR19) a fydd yn gosod y refeniw a ganiateir a'r targedau perfformiad i gwmnïau ar gyfer y cyfnod rhwng 2020 a 2025. Mae'r adolygiad prisiau yn cynnwys lwfans cynnal a chadw asedau, sicrhau diogelwch cyflenwad a bodloni gofynion ansawdd dŵr yfed ac amgylcheddol.

Roedd yn ofynnol i bob cwmni baratoi cynllun busnes ar gyfer cyfnod yr adolygiad, a gyflwynwyd i Ofwat ym mis Medi 2018. Roedd yn cynnwys nifer fawr o eitemau data a gyflwynwyd mewn mwy na 100 o dablau data. Fel rhan o'r broses ymholiadau yn dilyn y cyflwyniad, cafodd nifer fach o eitemau data eu diwygio a'u hailgyflwyno yn unol â chanllawiau Ofwat.

Mae Ofwat bellach wrthi'n adolygu'r cyflwyniadau a dros y flwyddyn nesaf bydd yn rhoi adborth i gwmnïau ar y cynlluniau. Yn gyntaf, bydd Ofwat yn cyhoeddi Penderfyniad Drafft ac yna Benderfyniad Terfynol erbyn diwedd 2019. Gellir cael rhagor o fanylion ar y broses adolygu prisiau ar wefan Ofwat.

Cyn y Penderfyniad Terfynol, bydd unrhyw ddata ychwanegol y bydd Ofwat yn gofyn amdanynt yn destun yr un lefel uchel o sicrwydd â'r hyn a ddefnyddiwyd i baratoi ein cynlluniau PR19 gwreiddiol.

Wrth baratoi i adrodd ar ein hymrwymiaidau perfformiad PR19 erbyn 2020, byddwn yn dilyn proses sicrwydd debyg i'r hyn sydd ar waith ar gyfer mesurau PR14 ar hyn o bryd. Er enghraifft:

- Bydd darparwyr data, eu rheolwyr a chyfarwyddwyr unedau busnes yn cynhyrchu ac yn cymeradwyo data, sylwebaethau, methodolegau a thrywyddau archwilio, ac yn eu cymeradwyo, er mwyn ategu'r perfformiad a gofnodwyd a dangos y gwiriadau rheoli a ddefnyddiwyd.
- Bydd y tîm rheoleiddio yn adolygu gwybodaeth a thrywyddau archwilio.
- Bydd yr Archwilwyr Technegol yn adolygu'r data a'r sylwebaeth ac yn rhoi eu barn i'r Bwrdd.

Camau rheoli a lliniaru

- Roedd gan Gynllun Busnes cyffredinol PR19 (sy'n cynnwys yr holl ddata a gwybodaeth ategol) reolwr cyhoeddi penodedig a oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y cwmni wedi dilyn yr holl brosesau sicrwydd ac y bydd y Cynllun Busnes a gyhoeddir ym mis Medi 2018 yn gywir, yn hygyrch ac yn hawdd ei ddeall.
- Sefydlwyd tîm prosiect PR19, a wnaeth oruchwylio rhaglen PR19 a chyfarfod yn fisol. Cafodd y gwaith o ddatblygu'r cynllun ei reoli gan Grwpiau Rheoli 'Cyfanswm Gwariant' dŵr, dŵr gwastraff a manwerthu, a gadeirir gan Gyfarwyddwyr yr adrannau Dŵr, Dŵr Gwastraff a Manwerthu yn y drefn honno, y mae pob un ohonynt yn adrodd i Dîm Gweithredol Dŵr Cymru.
- Mae Grŵp Llywio Rheoleiddiol yn bodloni sy'n adolygu'r gofynion rheoleiddio perthnasol ar gyfer PR19 ac yn sicrhau eu bod yn cael eu bodloni.
- Mae darparwyr data (sy'n darparu'r data) a rheolwyr data penodol (sydd hefyd yn cymeradwyo'r data) wedi'u dynodi ar gyfer pob adran o'r Cynllun Busnes ac maen nhw'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth gywir yn unol ag unrhyw ganllawiau a ddarparwyd.

- Bydd uwch reolwyr a Chyfarwyddwyr wedi adolygu a chymeradwyo'r wybodaeth yn y cyhoeddiad.
- Darparwyd sicrwydd annibynnol allanol gan yr Archwilydd Technegol a wnaeth gadarnhau bod y data yn gywir a, lle y bo'n berthnasol, bod y ddogfen wedi'i llunio yn unol â'r canllawiau a roddwyd. Gwnaeth yr Archwilydd Ariannol hefyd roi barn ar agweddau ariannol perthnasol ar y Cynllun Busnes.
- Darparwyd Datganiad Sicrwydd gan y Bwrdd i gadarnhau bod yr holl ofynion sicrwydd ar gyfer y Cynllun Busnes wedi'u bodloni.
- Roedd gennym gynllun sicrwydd ar gyfer dogfen PR19 yn ei chyfanrwydd a wnaeth gwmpasu unrhyw wybodaeth PR19 a gyflwynwyd gennym i Ofwat cyn cyhoeddiad mis Medi 2018.

Gwelliannau sydd yn yr arfaeth

- Lle ailgyflwynwyd data yn unol â chyfarwyddiadau Ofwat cyn cyflwyniad mis Medi fel rhan o'r broses ymholiadau, rydym wedi nodi unrhyw faterion o ran paratoi a sicrhau'r data hynny, ac wedi cymryd camau i sicrhau yr eir i'r afael â nhw yn y dyfodol.
- Byddwn yn ymateb i unrhyw bryderon am sicrwydd a godir gan Ofwat yn ei Asesiad Cychwynnol o Gynlluniau a gyhoeddir ar 31 Ionawr.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Mae hwn yn faes pwysig allweddol i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ac mae'n haeddu cael ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd o hyd.



9.7 Gwybodaeth am y Farchnad Bioadnoddau

Mae Ofwat yn awyddus i hyrwyddo gweithgareddau datblygu'r farchnad Bioadnoddau (a elwir hefyd yn slwtsh) gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaethau rhatach, gwneud y defnydd gorau o adnoddau, gwella cydnherthedd a dod o hyd i ffyrdd arloesol newydd o wneud pethau. Mae modd i gyfleoedd o'r fath fod yn sail, yn fodd ac yn gymhellant i fod yn effeithlon ac arloesol er budd cwsmeriaid, yr amgylchedd a'r gymdeithas ehangach.

Mae gwybodaeth am y farchnad o ran lle y cynhyrchir bioadnoddau ac ansawdd data yn allweddol i gefnogi'r farchnad Bioadnoddau, cyn belled ag y bo hynny'n helpu i hyrwyddo ac annog datblygiad effeithlon y farchnad a mynediad effeithlon iddi.

Er mwyn caniatáu i drydydd partion nodi cyfleoedd yn y farchnad a thrwy hynny hwyluso trafodaethau, mae'n rhaid i gwmnïau gyhoeddi Gwybodaeth am y Farchnad Bioadnoddau mor aml ag sydd ei angen, yn eu tyb nhw. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r wybodaeth honno gael ei diweddaru yn flynyddol o leiaf. Mae'n rhaid i'r wybodaeth flynyddol hon gael ei chyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn. Diben ein gweithgareddau sicrwydd yw cyhoeddi gwybodaeth y gall rhanddeiliaid fod ag ymddiriedaeth a ffydd ynddi ac sy'n hawdd ei dilyn a'i deall.

Camau rheoli a lliniaru

- Mae darparwyr a rheolwyr data penodol yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth gywir yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd. Mae rheolwr cyflwyno wedi'i benodi i sicrhau bod pob darparwr a rheolwr data yn cael ei nodi a bod y ddogfen a gyflwynir yn cael ei chwblhau ar amser ac yn unol â gofynion a chanllawiau.
- Mae uwch reolwyr penodol yn mynd ati i adolygu a chymeradwyo'r wybodaeth yn y ddogfen gyhoeddedig. Yna bydd cydweithiwr yn adolygu'r wybodaeth a chaiff y ddogfen ei chyflwyno.
- Darperir sicrwydd annibynnol allanol gan yr Archwilydd Technegol er mwyn cadarnhau bod data 2018/19 yn gywir ac yn cydymffurfio â'r canllawiau cyhoeddedig.

Gwelliannau sydd yn yr arfaeth

- Mae tîm data DCWW yn cynhyrchu modelau data byw ar gyfer y 4 cyfleuster trin treuliad uwch a fydd yn cefnogi gofynion adrodd data blynyddol ac amser real.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Mae hwn yn faes pwysig allweddol i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ac mae'n haeddu cael ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd o hyd.



9.8 Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a Gwybodaeth am y Farchnad

Ym mis Chwefror 2018, cawsom gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i gyhoeddi Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft 2019 at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 12 wythnos, gan gau ar 8 Mehefin, a chawsom 11 o ymatebion gan reoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill. Ar 14 Medi 2018 cyflwynom ein cynllun drafft diwygiedig ar gyfer 2019 ynghyd â'r Datganiad Ymateb cysylltiedig, gan nodi'r newidiadau a wnaed i'n Cynllun mewn ymateb i'r sylwadau a gafwyd. Rydym nawr yn aros am gyfarwyddyd pellach gan Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r Cynllun hwn yn derfynol a ddisgwylir erbyn mis Chwefror 2019.

Mae rheidrwydd cyfreithiol ar gwmnïau i baratoi Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr sy'n nodi sut y maent yn bwriadu cynnal y cydbwysedd rhwng y cyflenwad dŵr a'r galw amdano. Rhaid i'r Cynllun fod yn un hirdymor (o leiaf 25 mlynedd) a chyfrif am yr holl ffactorau posibl a allai effeithio ar y cydbwysedd rhwng y cyflenwad sydd ar gael a'r galw am ddŵr gan gwsmeriaid, fel newid hinsawdd.

Fel rhan o Adolygiad Prisiau 2014, cyflwynodd Ofwat fentrau masnachu dŵr er mwyn annog gweithgarwch masnachu dŵr rhwng cwmnïau dŵr sydd eisoes yn gweithredu. Drwy ganiatáu i adnoddau prin gael eu hoptimeiddio rhwng ardaloedd cwmnïau yn ogystal ag ynddynt, gall ei gwneud yn bosibl i fuddsoddiad drutach mewn datblygu adnoddau newydd yn ardal cwmni gael ei ohirio, gan leihau'r pwysau am i fyny ar filiau yn y dyfodol. Dim ond os yw cwmnïau yn llunio Fframwaith Asesu Cynigion cymeradwy, ac yn cydymffurfio ag ef, y gallant gael y cymhellion masnachu dŵr hyn.

Cyflwynodd DCWW God Masnachu a Chaffael i Ofwat ym mis Chwefror 2016 a gafodd ei gymeradwyo. Cafodd ein Fframwaith Asesu Cynigion newydd ynghyd â gwybodaeth am y farchnad, y gofynnodd Ofwat amdani, eu cyflwyno fel rhan o'n Cynllun Busnes. Bwriedir i'r fframwaith roi sicrwydd y bydd contractau ar gyfer darparu adnoddau dŵr, yn prynu oddi wrth y ffynonellau mwyaf darbodus, gan ystyried ansawdd, maint ac agweddau perthnasol eraill.

Mae ein Cynllun yn dangos ein bod yn ystyried cyflenwadau dŵr gan drydydd partïon mewn ffordd agored a thryloyw a'n bod yn cefnogi'r defnydd o brosesau cystadleuol. Fel rhan o broses ymgynghori'r Cynllun Adnoddau Dŵr, gwnaethom gyhoeddi barn ar yr angen am adnoddau dŵr a'u hargaeledd ar draws ein hardal gyflenwi ar ein gwefan. Cafodd Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw ei osod yn OJEU rhwng 17 Mai 2017 a 18 Awst 2017, gan geisio swmpgyflenwadau dŵr crai neu dŵr wedi'i drin yn y parthau canlynol ar sail y meintiau dangosol isod:

- Sir Benfro (~1 - 10 MI/d);
- Tywyn Aberdyfi (~ 0.1 - 0.5 MI/d);
- Gogledd Eryri Ynys Môn (~1 - 10 MI/d);
- SEWCUS (~2 - 30 MI/d).

Hyd yn hyn ni chafwyd ymatebion sylweddol i'n cyhoeddiad ar y wefan na'r OJEU nac yn ystod yr ymgynghoriad ar gynllun drafft 2019. Gwnaethom gyhoeddi set lawn o Dablau Gwybodaeth am y Farchnad Ofwat ochr yn ochr â chyflwyno ein cynllun drafft ar gyfer 2019, ac rydym wedi diweddarau ac ailgyhoeddi'r rhain ar ein gwefan, er mwyn cefnogi cyflwyniad ein cynllun drafft diwygiedig ar gyfer 2019 ym mis Medi 2018.

Camau rheoli a lliniaru

- Proses sicrhau ansawdd amlhaenog yn ymwneud â datblygu'r cynllun drafft a'r data cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys monitro ansawdd y llinellau data unigol drwy gyfrwng ymgynghorwyr allanol ac adolygiad staff Dŵr Cymru, adolygiad cydweithwyr o brosesau data a sicrhau ansawdd ein prosesau yn gyffredinol drwy gyfrwng archwiliad allanol.
- Defnyddir ymgynghorwyr fframwaith allanol i ddatblygu a chynhyrchu'r rhan fwyaf o'r data am y cyflenwad a'r galw ar gyfer y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, e.e. ystyriaethau ynghylch faint o ddŵr sydd ar gael, toriad yn y llif neu'r gwahaniaeth rhwng galw a chyflenwad. Mae gan ein hymgyngorwyr eu prosesau sicrwydd eu hunain i sicrhau bod y data'n gadarn, a bydd Dŵr Cymru wedyn yn adolygu a chadarnhau'r wybodaeth hon.
- Mae'r Archwilydd Technegol yn cynnal archwiliad annibynnol o'n prosesau ac yn adolygu'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym ni a'n partneriaid i fynd i'r afael â'r elfennau hynny o'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft y nodwyd eu bod yn rhai risg uchel. Mae hyn yn amlygu'r risgiau posibl o ran cydymffurfio â chanllawiau'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ac yn ystyried sut mae ein prosesau drafft yn y Cynllun hwnnw yn gydnaws ag egwyddorion arweiniol Llywodraeth Cymru ac â blaenoriaethau Ofwat ar gyfer Adolygiad Prisïau 2019. Y prif gwestiynau a ofynnwyd oedd:
 - A ydym wedi dangos dealltwriaeth dda o'r Canllawiau Cynllunio Adnoddau Dŵr a dogfennau cysylltiedig?
 - A oedd y prosesau a ddefnyddiwyd yn gyson â'r Canllawiau Cynllunio, gydag unrhyw wyro oddi wrth hynny wedi ei egluro a'i gyfiawnhau?
 - A oedd y cynllun yn adlewyrchu'n ddigonol egwyddorion arweiniol Llywodraeth Cymru a themâu allweddol Ofwat ar gyfer Adolygiad Prisïau cydgysylltiedig 2019?
 - A yw'r prosesau a ddefnyddir yn cynnwys lefelau priodol o sicrwydd ansawdd?
- Datblygwyd systemau coladu ar gyfer rhagolygon galw a chydbwysedd cyflenwad a galw gan ymgynghorwyr allanol ac mae cydweithwyr wedi cynnal adolygiadau arbenigol mewnol. Mae'r system adrodd hon yn defnyddio data sydd wedi'u harchwilio ac yn llunio'r tablau data sydd eu hangen ar reoleiddwyr yn awtomatig. Mae hyn yn cynnwys y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a data gwybodaeth am y farchnad. Mae'r system adrodd hon wedi cael ei hadolygu gan gydweithwyr.
- Cafodd y Cynllun ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus llawn ym mis Mawrth 2018 ac ar 14 Medi 2018 gwnaethom gyflwyno fersiwn ddrafft ddiwygiedig o'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a wnaeth ystyried yr adborth a ddaeth i law.

Mae perthynas agos rhwng y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a'r data a gyflwynir am y farchnad, ac mae'r camau lliniaru a restrir uchod yn berthnasol i'r ddau i'r un graddau.

Gwelliannau sydd yn yr arfaeth

- Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n rheoleiddwyr er mwyn gwella ein prosesau'n barhaus a deall y risgiau sy'n ein hwynebu. Rydym wedi buddsoddi mewn llwyfan modelu adnoddau dŵr newydd, sef 'Aquator', a fydd yn rhoi cymhwysiad newydd i ni gefnogi ein cynlluniau datblygu adnoddau dŵr a sychder drwy fodelu system cyflenwi dŵr yn well.
- Rydym hefyd yn gwella ein gwaith modelu dalgylch fel y gallwn wella'r broses o gynrychioli'r mewnlif hydrolegol yn ein dalgylchoedd cronfeydd dŵr ac afonydd lle bo angen.

- Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r broses Adolygu Blynnyddol er mwyn adrodd ar unrhyw newidiadau i'n balansau galw am gyflenwad ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun hwn.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Mae hwn yn faes pwysig allweddol i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ac mae'n haeddu cael ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd o hyd.

9.9 Adroddiadau Ariannol Statudol

Mae paratoi cyfrifon statudol yn ofyniad cyfreithiol ac rydym hefyd yn cyhoeddi datganiadau ariannol dros dro fel sy'n ofynnol yn ôl ein Cytundeb Telerau Cyffredin gyda buddsoddwyr. Mae Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon y grŵp yn nodi ein strategaeth, ein trefniadau llywodraethu a'n perfformiad yng nghyd-destun ein hamcanion strategol. Rydym hefyd yn adrodd ar ganlyniad ein hasesiad cydnerthedd ariannol yn ein datganiad hyfywedd hirdymor.

Caiff ein Hadroddiad Blynnyddol a Chyfrifon eu cyhoeddi ar ein gwefan bob blwyddyn ym mis Gorffennaf, a'n Datganiadau Dros Dro ym mis Tachwedd.

Camau rheoli a lliniaru

- Mae ein cyfrifwyr yn gwneud y gwaith cyfrifyddu beunyddiol sy'n cynnwys cynnal a chadw'r systemau cyfrifyddu a'r gwaith cysoni ar ddiwedd y mis.
- Mae perchenogion a rheolwyr data yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth gywir yn unol â'r canllawiau rheoleiddio a chyfrifyddu statudol diweddaraf.
- Mae goruchwyliaeth rheolwyr o weithgareddau'r cyfrifwyr yn cynnwys adolygiadau rheolaidd o wybodaeth a chymeradwyaeth derfynol cyn cyhoeddi.
- Mae Archwilwyr Ariannol, sy'n gweithio yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol, yn adolygu'r wybodaeth a gyflwynir yn ein cyfrifon statudol ac yn rhoi eu barn archwilio annibynnol ynghylch a yw'r wybodaeth honno yn gywir ac yn deg yn seiliedig ar ei chydymffurfiaeth â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a Deddf Cwmnïau 2006.
- Cynhelir adolygiad gan Dîm Gweithredol Dŵr Cymru a rhoddir diweddariadau i'r Pwyllgor Archwilio.
- Mae'r Bwrdd yn rhoi cymeradwyaeth cyn cyhoeddi.
- Adolygiad blynnyddol o bolisiau cyfrifyddu (trefnir yr un nesaf ar gyfer mis Chwefror 2019) er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â newidiadau i'r fframwaith cyfrifyddu a'n gallu i gydymffurfio ag unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

Gwelliannau sydd yn yr arfaeth

- Bydd gweithredu modiwl cyfuno yn system gyfrifyddu SAP yn darparu proses gyfuno fwy cadarn er mwyn llunio adroddiadau ariannol Cwmni a Grŵp a fydd yn lleihau nifer y cofnodion cyfnodolyn all-lein.
- Datblygu adroddiadau awtomataidd er mwyn lleihau'r angen i ddyrannu costau â llaw a chynyddu'r adnoddau sydd ar gael er mwyn darparu sicrwydd mewnol.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Mae hwn yn faes pwysig allweddol i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ac mae'n haeddu cael ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd o hyd.

9.10 Cyfoeth Naturiol Cymru – Tablau Cydymffurfio (MD109)

Yn ystod y cyfnod rheoli prisiau yn 2010-15, parhaodd Ofwat i fonitro perfformiad cwmnïau o ran cyflawni canlyniadau a darparu rhaglenni gwella drwy gyfrwng yr hyn a adwaenid bryd hynny fel Ffurflen Mehefin a chyflwyniadau MD109. Er bod gweithdrefnau adrodd a monitro Ofwat wedi datblygu, rydym yn parhau i dderbyn adroddiad o'r math MD109, sef y "Tablau Cydymffurfio" fel y'u gelwir bellach. Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am gwblhau'r Tablau Cydymffurfio blynyddol ond mae'r wybodaeth yn y tablau yn seiliedig ar ddata a gynhyrchwyd gan Dŵr Cymru.

Mae'r Tablau Cydymffurfio yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad ein gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn erbyn eu trwydded gwaredu. Mae gan bob gwaith trin dŵr gwastraff drwydded a roddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n rheoleiddio ansawdd y dŵr gwastraff y caniateir i'r cwmni ei ryddhau i afonydd a dyfroedd arfordirol. Mae'r Tablau hefyd yn cynnwys manylion am unrhyw achosion o lygredd.

Mae manylder a chyflawnder y wybodaeth yn y Tablau Cydymffurfio yn bwysig i Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn benodol ond hefyd i gwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn gyffredinol ac mae hyn yn cyfiawnhau ei chynnwys yn y ddogfen hon.

Camau rheoli a lliniaru

Cydymffurfiaeth Dŵr Gwastraff

- Caiff manylion y cyfyngiadau o ran nifer y trwyddedau a roddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd eu cynnwys yng Nghronfa Ddata Ansawdd Dŵr Cymru (QDB a LIMS).
- Nid yw'r rhaglen samplu hunanfonitro gweithredwyr yn weledol i staff gweithredol sy'n gyfrifol am berfformiad gollyngiadau.
- Mae cyfres o ddogfennau a chanllawiau ar gael i staff yn System Reolaeth Integredig Dŵr Cymru.
- Mae'r staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'n proses hunanfonitro yn rhydd o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl gan eu bod yn adrodd i Benaethiaid Busnes gwahanol.
- Mae canlyniadau samplu yn cael eu dadansoddi gan labordai achrededig annibynnol a labordai achrededig Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS).
- Mae methiannau samplu yn cael eu hadrodd yn awtomatig o QDB a LIMS.
- Mae'r cwmni yn gwneud gwiriadau cysoni awtomatig a gwiriadau cysoni â llaw er mwyn sicrhau bod setiau data Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Dŵr Cymru yn gywir.
- Cynhelir cyfarfodydd cyswllt rheolaidd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd a Dŵr Cymru.
- Mae Uwch Reolwr yn cymeradwyo data diwedd y flwyddyn ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n cynnwys data a gasglwyd o Loegr a reoleiddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Mae Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig yn cynnal archwiliad annibynnol blynyddol o brosesau Dŵr Cymru.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnal archwiliad blynyddol o'r system reoli hunanfonitro gweithredwyr.
- Mae Sicrwydd Busnes yn cynnal archwiliad blynyddol o dechnegwyr samplu a'r System Reoli.

- Mae Grŵp Llywio dan arweiniad Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Dŵr Gwastraff wedi bod yn weithredol ers peth amser er mwyn goruchwyllo gweithrediad y system newydd.
- Mae Grŵp Llywio yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Bwrdd Systemau a Newid, a gadeirir gan y Prif Swyddog Gweithredu.

Llygredd

- Cofnodir achosion o lygredd ar system Cynllun Gweithredu Strategol Dŵr Cymru.
- Ceir cysoni cyson rhwng y system Cynllun Gweithredu Strategol a System Cofnodi Digwyddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru).
- Mae trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol â Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi sicrwydd am gywirdeb a dosbarthiad data am lygredd.
- Rhoddir rhagor o sicrwydd gyda datblygiad canllawiau staff ar ddosbarthu a diffinio achosion o lygredd a ddiffinnir yng ngweithdrefnau'r System Reoli Integredig.
- Mae gweithdrefnau wedi'u datblygu ar gyfer cofnodi a rhoi gwybod am achosion o lygredd gydag elfen o fapio prosesau yn ofynnol ac yn cael ei darparu drwy'r System Reoli Integredig.
- Caiff System Cofnodi Digwyddiadau Cymru ei gwirio ar ddiwedd y flwyddyn yn unol ag amserlen Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Y Pennaeth Asedau Dŵr Gwastraff yn cymeradwyo'r ffurflen ddrafft i'w dychwelyd i Cyfoeth Naturiol Cymru

Gwelliannau sydd yn yr arfaeth

- Cyflwynir system newydd yn lle QDB ym mis Mai 2018. Fodd bynnag, bydd adroddiadau rheoli a rheoliadol yn parhau o system QDB tan 2019.
- Rydym wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen rhyngom ni a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn adolygu a gwella proses Arolygu OSM. Bydd hyn yn gwella ein gallu i gytuno ar y tablau'n gyflymach ac yn fwy effeithlon.
- Byddwn yn trefnu i adolygu'r data yn fwy rheolaidd yn ystod y flwyddyn adrodd.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Mae hwn yn faes pwysig allweddol i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ac mae'n haeddu cael ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd o hyd.



9.11 Perfformiad, Arferion a Pholisïau Talu

Gwnaeth yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol amlinellu yn ei adroddiad ym mis Hydref 2017 bod miloedd o fusnesau bob blwyddyn yn destun beichiau gweinyddol ac ariannol enfawr am nad ydynt yn cael eu talu mewn pryd. Mae taliadau hwyr yn fater allweddol i sefydliadau, yn enwedig i fusnesau llai, oherwydd gall gael effaith negyddol ar eu llif arian parod a pheryglu eu gallu i fasnachu. Yn yr achosion gwaethaf, gall taliadau hwyr arwain at fethdaliad.

Gwnaeth rheoliadau a wnaed o dan adran 3 o Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (ac, ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig, Ddeddf Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2000), osod dyletswydd ar gwmnïau mwyaf y DU a phartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig i adrodd bob chwe mis ar eu perfformiad, eu polisïau a'u harferion talu ar gyfer blynyddoedd ariannol yn dechrau ar, neu ar ôl, 6 Ebrill 2017. Mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei chyhoeddi drwy wasanaeth ar-lein a ddarperir gan y llywodraeth, a bydd ar gael i'r cyhoedd.

Gwnaethom gynnwys y maes hwn yng Nghynllun Sicrwydd Terfynol 2017/18 ac rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol i berfformiad cyn cyflwyno'r adroddiad cyhoeddus cyntaf ym mis Hydref 2018, fel bod ein perfformiad yn cydymffurfio â gofynion y Cod Taliadau Prydlon. Yn amodol ar unrhyw sylwadau gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid ar ymgynghoriad Cynllun Sicrwydd Drafft 2018/19 rydym yn bwriadu parhau i gadw'r eitem hon yn ein cynllun sicrwydd gan ei bod yn dal i fod yn bwysig.

Camau rheoli a lliniaru

- Caiff systemau a gweithdrefnau ariannol eu cyflunio er mwyn sicrhau y gallwn dalu pob anfoneb gymeradwy yn unol â'r telerau talu y cytunwyd arnynt.
- Caiff rhestr o anfonebau dyledus eu cylchredeg ymhlith rheolwyr llinell a'r rheini sy'n caffael gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pawb yn eu gweld.
- Rydym wedi gwella ein systemau er mwyn ei gwneud hi'n haws i'r rheini sy'n caffael gwasanaethau neu nwyddau gadarnhau eu bod wedi eu derbyn ac awtomeiddio darpariaeth amserol er mwyn sicrhau bod rheolwyr llinell yn ymwybodol o unrhyw eitemau sy'n destun oedi mewn da bryd.

Gwelliannau sydd yn yr arfaeth

- Parhau i wella systemau fel bod y sawl sy'n caffael yn meithrin gwell ymwybyddiaeth o drafodion eu timau o fewn y broses "caffael i dalu".
- Datblygu ap symudol er mwyn hwyluso'r broses o gadarnhau derbyn nwyddau/gwasanaethau gan weithredwyr maes.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Mae hwn yn faes pwysig allweddol i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ac mae'n haeddu cael ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd o hyd.

9.12 Ymgysylltu â Chwsmeriaid

Rydym yn sicrhau bod gwybodaeth a data a ddefnyddir i lywio ymchwil cwsmeriaid yn deillio o ffynhonnell ddibynadwy a chywir a'u bod yn cael eu prosesu'n gywir. Yn ystod y 12 mis diwethaf, gwelwyd cryn dipyn o weithgarwch wrth i ni baratoi ar gyfer yr adolygiad prisiau. Rydym hefyd yn cynnal ymchwil cwsmeriaid "busnes fel arfer", gan gynnwys arolygon er mwyn nodi lefelau ymddiriedaeth cwsmeriaid ac ymwybyddiaeth o'n statws "nid er elw".

Mae gennym fframwaith ymgysylltu â chwsmeriaid sy'n sail i unrhyw waith ymchwil a wneir. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys:

- "Map llwybr" cyffredinol ar gyfer ymgysylltu â chwsmeriaid o ran PR19;
- Nodiadau canllaw ar gyfer bodloni gofynion arfer da wrth ymgysylltu â chwsmeriaid;
- Dull o ddadansoddi'r data amrywiol a geir yn sgil ymgysylltu â chwsmeriaid er mwyn sicrhau ein bod yn nodi barn cwsmeriaid yn ddigonol.

Er bod gweithgareddau diweddar wedi canolbwyntio'n bennaf ar yr adolygiad prisiau, rydym yn cymhwyso'r egwyddorion sy'n sail i'r gwaith ymchwil hwn a'r camau rheoli a lliniaru a nodir isod at bob gweithgarwch ymgysylltu â chwsmeriaid er mwyn sicrhau bod yr ymchwil yn seiliedig ar ddata cywir a dibynadwy a ddarperir gan y cwmni.

Camau rheoli a lliniaru

Rydym yn sicrhau bod gwybodaeth a data a ddefnyddir i lywio ymchwil cwsmeriaid yn dod o ffynhonnell ddibynadwy a chywir a bod canlyniadau ymchwil cwsmeriaid yn cael eu prosesu a'u cyflwyno'n gywir. Rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau:

- Bod ymchwil cwsmeriaid yn cael ei gynnal gan gwmni ymchwil dibynadwy sydd â record dda ym maes ymchwil cwsmeriaid. Rydym yn defnyddio tri chwmni ymchwil o dan gontract fframwaith a oedd yn destun proses dendro gystadleuol. Mae pob un o'r cwmnïau yn aelodau o'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad ac felly'n rhwym wrth ei chod ymddygiad ar sut y dylid cynnal gwaith ymchwil.
- Yn gyffredinol, daw'r data a ddefnyddir yn yr ymchwil o ddogfennau a gyhoeddwyd gennym fel ein Hadroddiad Perfformiad Blynnyddol neu'r Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon sydd wedi bod yn destun lefel briodol o sicrwydd ynddynt hwy eu hunain.
- Lle y defnyddir data o ddogfennau a gyhoeddwyd gan gyrff allanol dibynadwy, e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym yn tybio bod y data wedi bod yn destun proses sicrwydd briodol.
- Mae perchenogion data o fewn y busnes yn gyfrifol am brosesu'r data a bodloni eu hunain bod y data'n ddibynadwy ac yn gywir.
- Yn gyffredinol, caiff gweithgarwch ymgysylltu â chwsmeriaid a gynhelir mewn perthynas â PR19 ei rannu â'r Grŵp Herio Cwsmeriaid a chânt gyfle i herio a chraffu ar y dull a ddefnyddiwyd a'r deunyddiau a ddarparwyd. Caiff ein briffiau ymchwil, ein holiaduron a'r holl adroddiadau terfynol ar y canlyniadau eu rhannu â'r Grŵp Herio Cwsmeriaid.

Gwelliannau sydd yn yr arfaeth

- Ar ôl cwblhau'r ymchwil ar gyfer PR19, rydym bellach yn cynnal ymarfer gwersi a ddysgwyd gyda'r Grŵp Herio Cwsmeriaid sy'n cynnwys adolygiad o'r ffordd y dilynwyd y camau rheoli a lliniaru a restrir uchod ac unrhyw argymhellion ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Mae hwn yn faes pwysig allweddol i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ac mae'n haeddu cael ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd o hyd.

9.13 Cysylltiadau a chwynion gan gwsmeriaid dibreswyl

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yw'r corff gwarchod defnyddwyr statudol ar gyfer y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cynnig cyngor annibynnol i gwsmeriaid ynghylch cwmnïau dŵr. Os yw cwsmeriaid wedi cael gwasanaeth gwael, gall ymchwilio i'w cwyn.

Bob chwarter, rydym ni a chwmnïau eraill yn rhoi diweddariad chwarterol i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr ar ein perfformiad yn erbyn nifer o fesurau allweddol, gan gynnwys y Mekanwaith Cymhelliant Gwasanaeth.

Cynhelir cyfarfod â phob cwmni dŵr bob chwarter lle mae'r Cyngor yn trafod perfformiad y cwmni ac yn cael y cyfle i godi unrhyw faterion sy'n peri pryder. Mae'r cyfarfod ar agor i aelodau'r cyhoedd unwaith y flwyddyn. O 1 Ebrill 2017, mae cwsmeriaid dibreswyl yn Lloegr wedi gallu newid eu manwerthwr dŵr. Yng Nghymru, dim ond cwsmeriaid dibreswyl mawr sy'n gallu gwneud hyn. Er mwyn sicrhau bod ein cwsmeriaid dibreswyl yn parhau i gael gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog, rydym wedi penodi sefydliad ymchwil i'r farchnad i gynnal dau arolwg boddhad hanner blwyddyn ar sampl ar hap o 1,000 o'n cwsmeriaid. Rydym yn cyhoeddi'r canlyniadau yn ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol.

Hefyd, yn dilyn trafodaethau â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr, rydym wedi llunio adroddiad ar weithgarwch dibreswyl a gyflwynir gennym i'r Cyngor bob chwarter. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y galwadau ffôn a'r cwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd. Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr hefyd yn adolygu ac yn trafod yr adroddiad hwn yn y cyfarfodydd chwarterol rheolaidd.

Camau rheoli a lliniaru

- Daw data a ddarperir yn flynyddol o ddogfennau a gyhoeddwyd gennych fel ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol neu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, sydd wedi bod yn destun lefel briodol o sicrwydd ynddynt hwy eu hunain.
- Daw data chwarterol a chwe-misol o ddogfennau mewnol allweddol, yn enwedig yr "Adroddiad Rheoli Misol" a adolygir gan Dîm Gweithredol Dŵr Cymru a'r Bwrdd. Mae'r Tîm Rheoleiddio yn cynnal proses gwirio synnwyr er mwyn sicrhau ei fod fwy neu lai'n unol â disgwyliadau a pherfformiad blaenorol a nodwyd.
- Cyflwynir adroddiadau perfformiad chwarterol i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Mae'n rhain yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cysylltiadau a'r cwynion ysgrifenedig a gafwyd gan ein cwsmeriaid dibreswyl.
- Mae Uwch Reolwyr a Chyfarwyddwyr yn mynychu cyfarfodydd chwarterol y Cyngor Defnyddwyr Dŵr i drafod perfformiad, gan gynnwys perfformiad sy'n ymwneud â chwsmeriaid dibreswyl.
- Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn cyhoeddi nifer o adroddiadau blynyddol ar berfformiad cwmnïau dŵr fel bod cwsmeriaid a rhanddeiliaid allweddol yn gallu cymharu pa mor dda mae cwmnïau wedi perfformio.

Gwelliannau sydd yn yr arfaeth

- Caiff Datganiadau Methodoleg eu datblygu yn 2018/19 ar gyfer yr holl wybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Cwblheir hyn erbyn mis Ebrill 2019.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Er bod hwn yn faes pwysig allweddol i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill, credwn y dylai gael ei gyfuno yn ein hadran newydd ar adroddiadau'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Y cynnig yw cyfuno'r ddwy adran yn ein Cynllun Sicrwydd Terfynol.

9.14 Ein Gwasanaethau â Blaenoriaeth i Gwsmeriaid sy'n Agored i Niwed

Rydym am sicrhau ein bod yn rhoi'r gwasanaeth gorau posibl i bob un o'n cwsmeriaid, bob amser. Os oes gan gwsmeriaid ofynion penodol oherwydd eu hoedran, iechyd, cyflwr meddygol neu ofynion cyfathrebu ychwanegol, gofynnwn iddynt gofrestru ar gyfer Gwasanaethau â Blaenoriaeth fel y gallwn helpu i addasu ein gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion. Mae gennym lyfryn 'Gwasanaethau â Blaenoriaeth' sy'n egluro beth sydd ar gael, sut y gallwn helpu, a sut i wneud cais. Caiff hyn ei atgyfnerthu hefyd yng nghyfarwyddyd Mesurau Argyfwng Diogelwch (ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth) 1998, lle rhoddir blaenoriaeth i sectorau o'r boblogaeth sy'n agored i niwed.

Rydym yn hyrwyddo ein Gwasanaethau â Blaenoriaeth drwy ein canolfan alwadau a chydweithwyr rheng flaen eraill, yn ogystal â gweithio gyda sefydliadau partner cymunedol i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a ddarperir gennym. Mae gennym gytundebau â dau sefydliad cyfleustodau eraill, Wales and West Utilities a Western Power Distribution, i gymryd gwybodaeth am gwsmeriaid sydd wedi cofrestru â'u cynlluniau gwasanaethau â blaenoriaeth, ac sydd wedi rhoi caniatâd iddynt drosglwyddo eu manylion i ni i'w cynnwys yn ein cynllun.

Cafodd y problemau gweithredol heriol a wynebwyd yn ddiweddar yn dilyn y tywydd gwael a gafwyd ar ddiwedd mis Chwefror a dechrau mis Mawrth 2018 effaith fawr ar ein rhwydwaith. Gwelwyd pibellau'r rhwydwaith a phibellau ar eiddo ein cwsmeriaid yn byrstio ac yn gollwng yn sgil y tywydd rhewllyd a'r dadmer sydyn, gan dorri'r cyflenwad i rai o'n cwsmeriaid. Roedd ein Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth yn allweddol o ran sicrhau ein bod yn cynnig cyflenwad arall i unrhyw gwsmeriaid a oedd yn agored i niwed yn ystod y digwyddiad. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i gwsmeriaid sydd â chyflwr meddygol sy'n golygu bod angen iddynt ddefnyddio dŵr, yn ogystal â chwsmeriaid sydd â symudedd cyfyngedig neu anabledau sy'n eu hatal rhag sicrhau cyflenwadau eraill yn ystod digwyddiad. Hefyd, gofynnwyd i bob aelod o staff rheng flaen a oedd yn delio â chwsmeriaid fynd ati i nodi cwsmeriaid a allai fod yn agored i niwed (hyd yn oed os nad oeddent ar ein Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth) er mwyn i ni allu nodi p'un a oedd angen unrhyw gymorth ychwanegol arnynt.

Camau rheoli a lliniaru

- Mae'r cwmni yn cynnal cofrestr ar gyfer ein gwasanaethau â blaenoriaeth, sy'n cynnwys dros 26,000 o gwsmeriaid.
- Caiff gwybodaeth am gwsmeriaid a'u hanghenion eu cofnodi ar systemau busnes perthnasol, lle y gellir llunio adroddiadau.
- Mae mynediad i'r gofrestr yn gyfyngedig er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â pholisi DCWW ar wybodaeth sensitif.
- Cytundebau rhannu data gyda darparwyr cyfleustodau eraill i gael manylion cwsmeriaid sydd wedi cofrestru â'u cynlluniau gwasanaethau â blaenoriaeth.
- Caiff y gofrestr ei chynnal mewn sawl ffordd, megis ffurflen gais a dderbynnir gan y cwsmer, gwybodaeth a dderbynnir gan Unedau Dialysis Arennol ynghylch cwsmeriaid sydd angen gwasanaeth ychwanegol a gwybodaeth a dderbynnir yn ystod galwad ffôn â chwsmer, er enghraifft os na all gwblhau ffurflen gais.

Gwelliannau sydd yn yr arfaeth.

- Byddwn yn adolygu ein prosesau bob chwarter ac yn sicrhau eu bod yn ddigon cadarn er mwyn sicrhau bod y manylion yn y gofrestr yn cael eu diweddarau.
- Ehangu'r rhwydwaith o sefydliadau partner er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'n Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Mae hwn yn faes pwysig allweddol i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ac mae'n haeddu cael ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd o hyd.

9.15 Meysydd Newydd sydd wedi'u cynnwys yn y CSD

9.15.1 Adroddiadau'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yw'r corff gwarchod defnyddwyr statudol ar gyfer y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Cyflwynwn yn rheolaidd (bob mis, bob chwarter a bob chwe mis) gyfres o ddata i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr ar feysydd fel ein perfformiad ar lifogydd carthffosydd, achosion o amharu ar gyflenwadau a nifer y cwynion gan gwsmeriaid a gafwyd. Hefyd, cyflwynir copi o gerdyn sgorio'r cwmni, sy'n dangos perfformiad yn erbyn ein targedau allweddol.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn cyhoeddi amrywiaeth o adroddiadau ar berfformiad cwmnïau sy'n tanlinellu sut mae cwmnïau unigol yn cymharu ar nifer o fesurau, yn ogystal â chymharu ac adrodd ar farn cwsmeriaid am y gwasanaethau a gânt gan eu cwmni dŵr lleol a ph'un a dynt yn werth am arian.

Mae manylder a chyflawnder y wybodaeth a roddir i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn bwysig iawn i bob cwsmer a rhanddeiliaid arall yn gyffredinol ac mae hyn yn cyfiawnhau ei chynnwys yn y ddogfen hon. Felly, sicrhawn fod y data rydym yn eu rhoi iddo yn cyrraedd yr un lefel uchel o sicrwydd â'r hyn a rown i'n holl reoleiddwyr eraill.

Camau rheoli a lliniaru

- Cymeradwyir y data gan berchennog y data, y rheolwr busnes (lle y bo'n briodol) a'r Cyfarwyddwr perthnasol.
- Darperir sylwebaeth er mwyn ategu'r data. Caiff ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Cyfarwyddwr perthnasol.
- Mae'r Tîm Rheoleiddio yn adolygu data, methodoleg, perfformiad a thrywyddau archwilio ategol.
- Archwiliad manwl trydydd parti o'r broses casglu a chofnodi data diwedd blwyddyn gan ein Harchwilydd Technegol, er mwyn rhoi sicrwydd y gellir cofnodi'r data yn ddibynadwy ac yn gywir ac yn unol ag unrhyw ofynion adrodd perthnasol. Mae hyn yn cynnwys hapwiriadau i brofi'r prosesau, y tybiaethau, y fethodoleg, y broses o'i rhoi ar waith, y trefniadau llywodraethu a'r canlyniadau.
- Cyfarfodydd chwarterol gyda'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr sy'n herio ein perfformiad lle bo'n berthnasol. Mae o leiaf un Cyfarwyddwr yn mynychu'r cyfarfodydd hyn.
- Caiff cyfarfodydd cyhoeddus eu trefnu gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr a gall cwsmeriaid ddod iddynt a holi'r cwmni.

Gwelliannau sydd yn yr arfaeth

- Caiff Datganiadau Methodoleg eu datblygu yn 2018/19 ar gyfer yr holl wybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Cwblheir hyn erbyn mis Ebrill 2019.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Mae hwn yn faes pwysig allweddol i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill a chredwn ei fod yn haeddu cael ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd.

9.15.2 Cydnerthedd Corfforaethol

Mae atgyfnerthu cydnerthedd fel y gall ein cwsmeriaid ddibynnu ar eu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth, nawr ac yn y dyfodol, yn un o brif nodweddion ein Cynllun Busnes.

Cymerwn gamau 'busnes cyfan' o ran cydnerthedd, ac, fel y cyfryw, mae ein cynlluniau cydnerthedd yn rhan o bron pob elfen o'n Cynllun Busnes. Rydym wedi datblygu fframwaith cynhwysfawr, gan gynnwys 'Olwyn Cydnerthedd' DCWW, er mwyn asesu cydnerthedd ar draws y busnes, yn seiliedig ar arfer da rhyngwladol a chanllawiau cenedlaethol.

Cydnerthedd cyffredinol sy'n bwysig i'n cwsmeriaid ac mae'n gysyniad craidd i ni. Mae'n rhaid i ni weld y darlun mwy o faint er mwyn bodloni disgwyliadau ein cwsmeriaid. Mae hyn yn golygu cael seilwaith a gwasanaethau cadarn a ategir gan y sgiliau cywir, yr arweinyddiaeth gywir a'r systemau cywir. Cyflawnwn gydnerthedd yn gyffredinol drwy gysylltu elfennau corfforaethol, ariannol a gweithredol cryf ynghyd gyda chwsmeriaid wrth wraidd popeth.

Cafodd ein model perchenogaeth - Glas Cymru ei sefydlu yn 2000 fel endid un diben i fod yn berchen ar DCWW, ei ariannu a'i reoli. Mae'n 'gwmni cyfyngedig drwy warant' ac, am nad oes ganddo unrhyw randdeiliaid, caiff unrhyw warged ariannol ei defnyddio er budd cwsmeriaid DCWW.

Fel cwmni cyfyngedig drwy warant, mae ein strwythur llywodraethu yn cynnwys Bwrdd lle mae'r rhan fwyaf o'r aelodau yn Gyfarwyddwyr Anweithredol Annibynnol, a cheir corff aelodaeth sy'n cyflawni rôl hanfodol dwyn y Bwrdd i gyfrif er mwyn galluogi fframwaith llywodraethu cryf. Mae'r corff aelodaeth yn pleidleisio yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar benderfyniadau fel penodi cyfarwyddwyr a pholisi cydnabyddiaeth. Ceisiwn wella effeithiolrwydd ein corff aelodaeth drwy sicrhau bod rhyngweithio rhwng ein Bwrdd a'n Haelodau mewn o leiaf ddau gyfarfod y flwyddyn, dau gyfarfod rhanbarthol y flwyddyn a thrwy gyswllt rheolaidd ag Aelodau drwy dimau Ysgrifenyddiaeth y Tîm Gweithredol a'r Cwmni.

Mae trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn yn ategu'r gwerthoedd a bennir gan y Bwrdd, ac yn cefnogi fframwaith gwneud penderfyniadau'r Grŵp. Gan nad ydym yn gwmni rhestredig nid oes rhaid i ni gydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, ond gwnawn hynny'n wirfoddol hyd y bo'n gymwys ar sail ein model perchenogaeth.

Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn amlinellu safonau arfer da o ran arweinyddiaeth, effeithiolrwydd y Bwrdd, atebolrwydd, cydnabyddiaeth a chysylltiadau â Rhanddeiliaid. Er bod y Cod yn fwy cymwys i gwmnïau y mae eu cyfranddaliadau wedi'u rhestru ar Gyfnewidfa Stoc Llundain, ceisiwn ddilyn ysbryd y Cod a'r egwyddorion ynddo.

Bob blwyddyn cyhoeddwn ein Hadroddiad Blyneddol a Chyfrifon mewn ffordd mor deg a chytbwys â phosibl, ac mae ein Cyfarwyddwyr yn cadarnhau bod y cwmni yn "fusnes gweithredol" ac yn gwneud datganiad dichonoldeb hirdymor. Yn ein Hadroddiad Blyneddol a Chyfrifon adroddwn yn erbyn Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, gan gynnwys sicrhau adolygiad teg, cytbwys a dealladwy o berfformiad, model busnes a strategaeth y cwmni.

Mae Ofwat wedi datblygu cyfres o egwyddorion sy'n cynrychioli'r safonau gofynnol ar gyfer arweinyddiaeth, tryloywder a llywodraethu ar lefel Bwrdd i gwmnïau yn y sector dŵr. Croesawn ganllawiau Ofwat sy'n ategu'r Cod yn ein barn ni.

Caiff ein Datganiad Llywodraethu Corfforaethol ei gyhoeddi ar ein gwefan bob blwyddyn. Mae'r Datganiad hwn yn nodi sut rydym yn cyflawni Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac mae hefyd yn dynodi lle ceir egwyddorion Ofwat cyfochrog.

Camau rheoli a lliniaru

- Cawn ein harwain gan Fwrdd effeithiol sydd, gyda'i gilydd, yn gyfrifol am lwyddiant hirdymor y cwmni.
- Rhennir cyfrifoldebau'n glir rhwng rhedeg y Bwrdd a'r cyfrifoldeb gweithredol am redeg busnes y cwmni. Nid oes gan un unigolyn bwerau gwneud penderfyniadau dilyffethair.
- Mae gennym drefniadau ffurfiol a thryloyw ar gyfer ystyried sut y dylai gymhwyso egwyddorion cyflwyno adroddiadau corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a chynnal cydberthynas briodol ag archwilwyr y cwmni.

Gwelliannau sydd yn yr arfaeth

- Rydym wedi paratoi trosolwg o'r addasiadau arfaethedig yn ymgynghoriad Ofwat er mwyn symleiddio amodau amrywiol trwyddedau pob ymgymwrwr er mwyn sicrhau bod ein prosesau sicrwydd ar waith cyn i unrhyw drwyddedau gael eu haddasu.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Tra bod cydnerthedd wedi bod yn bwysig i ni cyhyd, yn y CSD hwn rydym wedi, am y tro cyntaf, gynnwys adran ar ein cydnerthedd corfforaethol.



9.15.3 Cydnerthedd Corfforaethol

Mae angen i'n cwsmeriaid wybod y gallant ddibynnu ar y gwasanaethau a ddarparwn yn yr hirdymor ac felly mae sicrhau cydnerthedd hirdymor ein busnes, gan gynnwys cydnerthedd ariannol, yn faes ffocws allweddol i ni.

Gan nad oes gennym randdeiliaid (a allai ddarparu cydraddoldeb yn achos anhawster ariannol), mae cynnal mynediad parod i ddyledion cost isel yn rhan allweddol o'n model perchenogaeth nid er cyfranddalwyr. Yna caiff buddiannau'r cyllid cost isel hwn eu trosglwyddo i gwsmeriaid ar ffurf biliau is.

Pan sefydlwyd y strwythur perchenogaeth o dan Glas Cymru yn 2001, canolbwynt y strategaeth cydnerthedd ariannol hon oedd lleihau ein gerio. Mae gerio ychydig yn well na tharged y Bwrdd o 60% ar hyn o bryd ac mae'r gostyngiad hwn mewn gerio wedi creu swm cadarn o gronfeydd ariannol wrth gefn (a oedd yn £2.4bn ym mis Mawrth 2018). Er nad ydym yn gwmni rhestredig, rydym yn dilyn Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU gymaint â phosibl ar gyfer cwmni cyfyngedig drwy warant.

Camau rheoli a lliniaru

- Mae cydnerthedd ariannol wedi'i gynnwys yn ein proses cynllunio busnes; mae hyn yn cynnwys rheolaethau rheoli risg cadarn, rhagamcanion ariannol a dadansoddiad sensitifrwydd, yn ogystal ag adolygiadau cyllidebol rheolaidd.
- Yn 2017/18 ystyriodd y Bwrdd mai cyfnod o hyd at 12 mlynedd oedd fwyaf addas er mwyn i'r Bwrdd asesu rhagolygon y Grŵp (mae hyn o fewn y cyfnod a gwmpesir gan ein proses cynllunio busnes gyfredol ac mae'n cwmpasu'r ddau gyfnod adolygu rheoleiddio nesaf, hyd at 2030).
- Rydym wedi egluro ein rheolaethau cyfredol o ran prisiau rheoleiddio hyd at 2020, wedi datblygu cynlluniau manwl ar gyfer y cyfnod rheoleiddio nesaf (AMP7) hyd at 2025, ac rydym hefyd yn datblygu cynlluniau amlinellol ar gyfer y cyfnod canlynol (AMP8) hyd at 2030 yng nghyd-destun ein dogfen cynllunio strategol "Welsh Water 2050".
- Rydym yn straen-brofi rhagolygon ein cynllun busnes yn erbyn senarios ariannol gwahanol sy'n cynnwys effaith amcangyfrifedig pob un o'n prif risgiau a nodwyd a'r ansicrwydd yn digwydd, yn unigol ac ar y cyd yn seiliedig ar asesiad y Bwrdd o'u tebygolrwydd a'u difrifoldeb. Rydym hefyd yn cyfuno'r effaith a ragwelir â senarios chwyddiant uchel ac isel a straen cost "cyffredinol" yn ystod y cyfnod.
- Mae'r Grŵp yn gweithredu mewn sector sefydlog gyda llifau arian parod rhagweladwy a rheoleiddiwr cefnogol; mae lefelau hyder buddsoddwyr wedi bod yn uchel yn hanesyddol ac nid yw newidiadau tebygol i'r amgylchedd rheoleiddio nac i brif risgiau'r Grŵp ei hun yn debygol o gael effaith sylweddol ar statws credyd y cwmni yn y dyfodol agos.
- Mae'r Grŵp yn cadw rhagolygon cadarn a gerio gwirioneddol o tua 60%, lefel gadarn o hylifedd a'r gallu i godi cyllid.

Gwelliannau sydd yn yr arfaeth

- Pan gyhoeddwn ein datganiad dichonoldeb hirdymor ar gyfer 2019 ym mis Gorffennaf 2019, byddwn yn gwybod canlyniad adolygiad prisiau PR19 Ofwat sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2020 a 2025, sy'n rhoi mwy o eglurder i ni ar gyfer ein cynlluniau tymor canolig.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Mae hwn yn faes pwysig allweddol i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill a chredwn ei fod yn haeddu cael ei gynnwys yn ein Cynllun Sicrwydd.

9.15.4 GDPR

Mae ein busnes yn cadw swm anferth o wybodaeth bersonol am ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr.

Rydym yn casglu ac yn storio'r wybodaeth hon mewn sawl ffordd wahanol, ac am sawl rheswm gwahanol – o ysgrifennu manylion cwsmer i lawr ar bapur ar ôl ymweld â'i gartref, i storio cyfeiriad a gwybodaeth filio rhywun ar ein systemau cyfrifiadurol, neu gofnodion ein cydweithwyr ein hunain a gaiff eu cadw ar ein systemau adnoddau dynol.

Nid ydym yn berchen ar y wybodaeth hon. Yr unigolyn sy'n berchen arni. Fodd bynnag, rydym yn gyfrifol am ei diogelu wrth ei thrin neu ei rhoi i'n partneriaid er mwyn gwneud rhywbeth â hi ar ein rhan.

Mae Rheoliad Cyffredinol yr UE ar Ddiogelu Data (GDPR) yn set newydd o reolau y bu'n rhaid i ni ei dilyn wrth gasglu, storio, trin neu ddefnyddio unrhyw wybodaeth bersonol ers 25 Mai 2018.

Yn sgil cyflwyno GDPR bu'n rhaid i ni wneud rhai newidiadau i'r ffordd rydym yn trin gwybodaeth bersonol yn ein rolau, gan gynnwys newidiadau i systemau a phrosesau.

Camau rheoli a lliniaru

- Cyflwynwyd tîm prosiect er mwyn helpu adrannau drwy'r broses o newid.
- Penodwyd Swyddog Diogelu Data er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ar draws y cwmni.
- Cyfunwyd yr ymgyrch ar dri cham gan ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ymwybyddiaeth, yna teilwra ein negeseuon ac yn olaf feddwl am atgyfnerthu ac ymgorffori newid ar ôl mis Mai 2018.
- Datblygwyd gêm sef “GDPR Escape Room”.
- Rhannwyd modiwlau Dysgu Gorfodol â phob cydweithiwr er mwyn codi ymwybyddiaeth o GDPR. Mae pob cydweithiwr wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn llwyddiannus, a bydd angen hyfforddiant gloywi bob blwyddyn.
- Rhoddwyd hyfforddiant ystafell ddosbarth i bob rheolwr a chydweithiwr sy'n gallu gweld gwybodaeth sensitif fel rhan o'i waith beunyddiol.
- Nodir astudiaethau achos a gaiff eu bwydo'n ôl i'r Swyddog Diogelu Data er mwyn nodi arfer gorau.
- Mae'r holl newidiadau i systemau ers mis Mai 2018 wedi bod yn destun proses asesu'r effaith ar ddiogelu data.

Gwelliannau sydd yn yr arfaeth

- Bydd adrannau unigol yn penodi hyrwyddwr GDPR.
- Cynhelir cyfarfodydd chwarterol o hyrwyddwyr GDPR er mwyn rhannu arfer gorau.

Cyfiawnhad dros gynnwys y maes hwn yn y Cynllun Sicrwydd Drafft

Mae'n hynod bwysig ein bod yn cydnabod pwysigrwydd cadw gwybodaeth bersonol ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr yn ddiogel. Mae hyn ynddo'i hun yn cyfiawnhau cynnwys GDPR yn ein cynllun.

10 Y CAMAU NESAF

Mae'n bwysig ein bod yn cael barn cwsmeriaid a rhanddeiliaid wrth i ni fynd ati i lunio'r Cynllun Sicrwydd terfynol. Felly, byddem yn croesawu sylwadau. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn ystod y rhan hon o'r ymgynghoriad a gallwn gwrdd i drafod unrhyw agwedd ar yr ymgynghoriad hwn.

Croesawn eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn diwedd y diwrnod gwaith ar **11 Ionawr 2019**. Byddwn yn ymateb i bob ymateb a gawn ac yn egluro pa gamau rydym wedi eu cymryd i fynd i'r afael â'r sylwadau a gafwyd.

Byddwn yn ystyried y sylwadau a ddaw i law ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein Cynllun Sicrwydd Terfynol erbyn diwedd mis Mawrth 2019.



ATODIAD 1 Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd – Mesurau Perfformiad

		Symudiad Risg			
Mesur Perfformiad		2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
A1a	Dŵr Yfed Diogel				
A1b	Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig				
A2	Derbynioldeb i Gwsmeriaid				
A3	Dibynadwyedd y cyflenwad				
B1	Tynnu dŵr i'r ddefnyddio				
B2	Trin dŵr gwastraff				
B3a	Atal digwyddiadau sy'n ymwneud â llygredd (Cat 1,2 a 3)				
B3b	Atal digwyddiadau sy'n ymwneud â llygredd (Cat 3 yn unig)				
C1	Ymateb i newid yn yr hinsawdd				
C2	Ôl troed carbon				
D1	Dull Cymell Gwasanaeth				
D2	Gwasanaethau i gwsmeriaid sydd mewn perygl				
D3	Eiddo lle bu llifogydd yn ystod y flwyddyn				
D4a	Bodddhad cwsmeriaid dibreswyl %				
D4b	Sgôr bodddhad cwsmeriaid dibreswyl				
D5	Ennyn ymddiriedaeth cwsmeriaid				
E1	Biliau fforddiadwy				
E2	Cymorth i gwsmeriaid dan anfantais				
F1	Defnyddioldeb Asedau				
F2	Gollyngiadau dŵr				
F3a	Gwydnwch asedau (dŵr)				
F3b	Gwydnwch asedau (Gwastraff)				
G1	Digwyddiadau RIDDOR iechyd a diogelwch				
G2	Cymhwysedd i gyflawni'r rôl				
H2	Effeithlonrwydd Cyllid - Statws credyd				
SC1	Drwgddyledion				
SC2	Sgôr hyrwyddo net				
SC3	Cwynion				

Sgôr Effaith	④	A1a-A1b-B2- D1	F1- F3a-G1		
	③	A2-A3-B1-B3a-B3b-E1-E2-H2-SC3	D3-F2-F3b		
	②	D2-SC1	C1-C2-D4a-D4b-D5		
	①	SC2-G2			
		Sgôr Tebygolrwydd			
		①	②	③	④

ATODIAD 2 Matrics Risg Effaith a Thebygolrwydd – Gweithgareddau Eraill

Gweithgareddau Eraill		Symudiad Risg		
		2016/17	2017/18	2018/19
1	Adroddiad Perfformiad Blynnyddol			
2	Gwasanaethau Datblygwyr			Dd/G
3	Adrodd Cylchrannol			
4	Marchnad Manwerthu Busnes			Dd/G
5	Cynllun Taliadau			
6	Cyhoeddi'r Wefan			
7	Cynllun Busnes Adolygiad Prisiau 2019	Dd/G		
8	Gwybodaeth am y Farchnad Bioadnoddau	Dd/G		
9	Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a Gwybodaeth am y Farchnad	Dd/G		
10	Adroddiadau Ariannol Statudol	Dd/G		
11	Tablau Cydymffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru	Dd/G		
12	Perfformiad, Arferion a Pholisïau Talu	Dd/G		
13	Ein Gwasanaethau â Blaenoriaeth i Gwsmeriaid sy'n Agored i Niwed			
14	Ymgysylltu â Chwsmeriaid	Dd/G		
15	Cysylltiadau a chwynion gan gwsmeriaid dibreswyl	Dd/G		
16	Adrodd i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Dd/G	Dd/G	
17	Cydnherthedd Corfforaethol	Dd/G	Dd/G	
18	Cydnherthedd Ariannol	Dd/G	Dd/G	
19	GDPR	Dd/G	Dd/G	

Nodyn – Nid oes angen i weithgarwch rhif 2 a 4 (Gwasanaethau Datblygwyr a Marchnad Fanwerthu Busnes) gael eu cynnwys mwyach yn y Cynllun Sicrwydd. Gweler Cynllun Sicrwydd Terfynol 2017/18 am ragor o wybodaeth.

